

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository: <https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/147113/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Thomas, Rebecca 2021. Ystyr anghyfiaith mewn testunau Cymraeg Canol. *Studia Celtica* 55 , pp. 75-96. 10.16922/SC.55.4

Publishers page: <https://doi.org/10.16922/SC.55.4>

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See <http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



‘Ystyr *Anghyfiaith* mewn Testunau Cymraeg Canol

REBECCA THOMAS

Prifysgol Bangor

Crynodeb

Mae'r erthygl hon yn ymdrin â rôl iaith yn y broses o ddatblygu hunaniaethau yn yr Oesoedd Canol trwy astudio'r defnydd o *anghyfiaith* mewn testunau Cymraeg Canol.¹ Ymddengys *anghyfiaith* mewn ystod eang o destunau ac mae'r drafodaeth yn ystyried testunau cyfreithiol, barddoniaeth a rhyddiaith (a gyfieithwyd o'r Lladin i'r Gymraeg) yn eu tro. Mae'r defnydd o *anghyfiaith* mewn cymaint o gyd-destunau gwahanol yn tystio i bwysigrwydd iaith fel gwahaniaeth rhwng pobloedd yn y testunau hyn. Yn y cyfreithiau, mae'r *anghyfiaith* yn gategori o bobl ag anallu cyfreithiol ac mae'r gair hefyd yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o ddiffinio Cymru. Defnyddir *anghyfiaith* yn aml yn y farddoniaeth a'r rhyddiaith i ddisgrifio gelyn y Cymry – y Saeson fel arfer. Yma, tanlinellir iaith fel gwahaniaeth rhwng y Cymry a phobloedd eraill. Ond trwy gymharu'r rhyddiaith gyda'r testunau Lladin y'i seiliwyd arnynt, gwelir bod *anghyfiaith* yn aml yn gyfieithiad o'r Lladin *barbari*. Ymhellach, mae'r erthygl hon yn awgrymu y defnyddir *anghyfiaith*, mewn rhai cyd-destunau, i ddisgrifio'r rhai hynny nad oeddent yn medru'r Lladin – hynny yw, nad oeddent yn rhan o'r byd Cristnogol. Mae'r ymchwiliad hwn i ystyr *anghyfiaith*, felly, yn taflu goleuni ar yr hunaniaethau cymhleth a haenog a grëwyd yn y testunau hyn.

Proses gymhleth o ddatblygu, ailddatblygu ac addasu oedd hunaniaeth yn yr Oesoedd Canol.² Roedd beirdd, cyfreithwyr, a chasglwyr testunau wrthi'n prysur ddiffinio cymunedau

¹ Rwy'n ddiolchgar i'r Academi Brydeinig am ei chefnogaeth yn ystod cyfnod ymchwilio'r erthygl hon. Hoffwn ddiolch i'r Athro Huw Pryce, y Prif Olygydd a'r darlennydd dienw am eu sylwadau defnyddiol ar fersiwn cynharach. Diolch hefyd i'r Athro Paul Russell am drafodaeth fywiog ar y pwnc.

² Am drafodaeth, gw. Walter Pohl, 'Introduction – strategies of identification: a methodological profile', yn Walter Pohl a Gerda Heydemann (goln), *Strategies of Identification: Ethnicity and Religion in Early Medieval Europe* (Turnhout: Brepols, 2013), 1–64; R. R. Davies, 'The Peoples of Britain and Ireland, 1100–1400, I: Identities', *Transactions of the Royal Historical Society*, 4 (1994), 1–20 (8–9). Am drafodaeth fwy cyffredinol, gw. Thomas H. Eriksen, *Ethnicity and Nationalism: Anthropological Perspectives* (London: Pluto Press, 1993), 11–18; Frederik Barth, *Ethnic Groups and Boundaries: The Social Organization of Cultural Difference* (London: Allen & Unwin, 1969).

o wahanol fathau, yn nodi hyd a lled eu haelodaeth ac yn rhestru'r rhai hynny a wynebai ddrws caeedig petaent yn ceisio ymuno. Roedd gan ysgolheigion yr Oesoedd Canol nifer o arfau at eu gwasanaeth; gallai chwedlau tarddiad, cyfreithiau, ffiniau daearyddol a rheolaeth wleidyddol i gyd gyfrannu at ddiffinio cymuned arbennig.³ Pwysig hefyd oedd iaith. Mae ysgolheigion wedi pwysleisio amlieithrwydd yr Oesoedd Canol, yn enwedig mewn ardaloedd cyffiniol, ynghyd â'r modd y rhannai tafodieithoedd siaradwyr yr un iaith yn unedau llai.⁴ Fodd bynnag, mae cryn dipyn o dystiolaeth fod iaith wedi bod yn rhan bwysig o greu hunaniaethau mewn testunau canoloesol. Yn yr wythfed ganrif, honnai un o chwedlau tarddiad y Gwyddelod mai iaith oedd wrth wraidd eu hunaniaeth fel cenedl.⁵ Yn ei *Historia ecclesiastica*, cysylltodd Beda y pedair iaith a siaredid ym Mhrydain gyda phedair cenedl wahanol (ynghyd â Lladin, a oedd yn gyfarwydd i bawb).⁶ Erbyn y ddeuddegfed ganrif, roedd William o Malmesbury yn cysylltu natur cenedl â'r iaith a siaradai.⁷ Mewn llythyr at y Pab Innocent II, disgrifiodd Bernard, esgob Tyddewi (1115–48), y Cymry fel pobl wahanol i'r Saeson, *natione, lingua, legibus et moribus, iudiciis et consuetudinibus*.⁸ Iaith oedd yr ail nodwedd ar restr Bernard.

³ Ceir trafodaeth estynedig ar yr agweddau hyn yng nghyd-destun Prydain ac Iwerddon yn yr Oesoedd Canol yn Davies, 'Peoples of Britain and Ireland ... I'; R. R. Davies, 'The Peoples of Britain and Ireland, 1100–1400, II: Names, Boundaries and Regnal Solidarities', *Transactions of the Royal Historical Society*, 5 (1995), 1–20; R. R. Davies, 'The Peoples of Britain and Ireland, 1100–1400, III: Laws and Customs', *Transactions of the Royal Historical Society*, 6 (1996), 1–23; R. R. Davies, 'The Peoples of Britain and Ireland, 1100–1400, IV: Language and Historical Mythology', *Transactions of the Royal Historical Society*, 7 (1997), 1–24.

⁴ Davies, 'Peoples of Britain and Ireland ... IV', 3–4.

⁵ George Calder (gol. a chyf.), *Auraicept na n-Éces, the Scholars' Primer* (Edinburgh: J. Grant, 2017), 78–81 (llau 1034–55). Gw. hefyd T. M. Charles-Edwards, 'The Context and Uses of Literacy in Early Christian Ireland', yn Huw Pryce (gol.), *Literacy in Medieval Societies* (Cambridge: CUP, 1998), 62–82 (76–7); T. M. Charles-Edwards, 'The Making of Nations in Britain and Ireland in the Early Middle Ages', yn Ralph Evans (gol.), *Lordship and Learning: Studies in Memory of Trevor Aston* (Woodbridge: Boydell Press, 2004), 11–37 (32–3); Paul Russell, '“What was best of every language”: The Early History of the Irish Language', yn Dáibhí Ó Cróinin (gol.), *A New History of Ireland I: Prehistoric and Early Ireland* (Oxford: OUP, 2005), 405–49 (405–7).

⁶ Bertram Colgrave ac R. A. B. Mynors (goln a chyf.), *Bede's Ecclesiastical History of the English People* (Oxford: OUP, 1969), i.1 (tt. 16–17).

⁷ Am drafodaeth a rhagor o enghreifftiau, gw. Davies, 'Peoples of Britain and Ireland ... IV', 9.

⁸ W. S. Davies (gol.), 'Giraldus Cambrensis: De Invectionibus', *Y Cymmrodor*, 30 (1920), ii.7 (t. 142). Ymhellach ar agwedd Gerallt Gymro tuag at iaith yn fwy cyffredinol, gw. Michael Richter, *Giraldus Cambrensis: The Growth of the Welsh Nation* (Aberystwyth: NLW, 1976), 57–72, 83–4.

O ystyried y sylwadau hyn, os ydym am ffurfio ein rhestr ein hunain o'r nodwedddion a oedd yn bwysig i awduron canoloesol wrth iddynt greu hunaniaethau, mae yna le amlwg i iaith. Ac yn wir mae iaith eisoes wedi derbyn peth sylw yn y cyd-destun hwn.⁹ Fodd bynnag, gan nad yw'r testunau bob tro'n pwysleisio pwysigrwydd iaith i hunaniaeth – yn gymaint â ffactorau eraill megis chwedlau tarddiad ac undod gwleidyddol – mae rhai yn casglu nad yw awduron y testunau hynny, er eu bod yn cydnabod iaith fel gwahaniaeth rhwng pobloedd, yn ei hystyried yn wahaniaeth mor bwysig â hynny. Ym marn rhai, nid ystyriai pobl yn yr Oesoedd Canol iaith yn destun anghydfod. Er enghraifft, noda R. Rees Davies, 'braidd yw iaith yn ymddangos fel testun dadl rhwng y Saeson a'r Cymry'.¹⁰ Efallai nad yw awduron bob tro'n nodi pwysigrwydd iaith i hunaniaeth yn benodol, ond mae'r ffordd y defnyddir iaith yn y testunau Cymraeg yn awgrymu rhywbeth gwahanol i ddatganiad Davies. Mae'r defnydd o'r gair *iaith* ei hun yn enghraifft dda. Defnyddir *iaith* yn gyfystyr â 'phobl' neu 'genedl' mewn nifer o destunau, fel y gwelir mewn cerdd yn Llyfr Taliesin lle nodir bod brenhinoedd pob *iaith*, hynny yw cenedl, yn deyrngar i Urien Rheged.¹¹ Gallai *iaith*, felly, gyfeirio at yr iaith ei hun a'i siaradwyr, y Cymry a'r Gymraeg. Nid yw hyn yn unigryw, chwaith. Ceir ystod debyg o ystyron i *lingua* yn Lladin, ac mewn Hen Saesneg defnyddid *ge-þeód* i gyfeirio at bobl a *ge-þeóde* i gyfeirio at iaith.¹² Mae ystyried y geiriau a ddefnyddir yn y testunau cynnar, felly, yn amlygu pwysigrwydd iaith i syniadau o hunaniaeth yn yr Oesoedd Canol. Yn y pen draw, roedd y bobl yn un â'u hiaith, a'u hiaith yn un â'r bobl.

Ceir dau air arall a ddefnyddir mewn testunau Cymraeg o'r Oesoedd Canol sy'n gysylltiedig â'r defnydd hwn o *iaith*: *cyfiaith* 'o'r un iaith', 'yn siarad yr un iaith'; ac *anghyfiaith* 'heb fod

⁹ Gw., e.e., Michael Richter, 'National Identity in Medieval Wales', yn Alfred P. Smyth (gol.), *Medieval Europeans: Studies in Ethnic Identity and National Perspectives in Medieval Europe* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 1998), 71–84.

¹⁰ Davies, 'Peoples of Britain and Ireland ... IV', 7: 'language scarcely figures as an issue between the English and the Welsh'.

¹¹ Ifor Williams (gol.), *Canu Taliesin* (Caerdydd: GPC, 1977), cerdd IX 'Dadolwch Vryen', ll. 15. Gw. hefyd Charles-Edwards, 'Making of Nations', 26–8; Simon Rodway, 'The Four Nations of the Britons in Native Tradition', *Studi celtici*, 4 (2006), 195–203; Llinos Beverley Smith, 'Yr Iaith yng Nghymru'r Oesoedd Canol', *Llên Cymru*, 18 (1995), 179–91 (179). Am enghreifftiau eraill o'r defnydd hwn o *iaith*, gw. GPC d.g. *iaith* b.

¹² Richard Ashdowne, David Howlett a Ronald E. Latham (goln), *Dictionary of Medieval Latin from British Sources* (Turnhout: Brepols, 2015), d.g. *lingua* 4b; Joseph Bosworth a T. Northcote Toller (goln), *An Anglo-Saxon Dictionary Online* (Prauge: Faculty of Arts, Charles University, 2014; ar lein yn <https://bosworthtoller.com/>) d.g. *ge-þeód*; *ge-þeóde*.

o'r un iaith', 'yn siarad iaith estron neu'n perthyn i iaith estron'.¹³ Er bod sawl un wedi nodi arwyddocâd y gair *anghyfiaith*, yn aml yng nghyd-destun yr ymdeimlad o wladgarwch, ni chafwyd astudiaeth fanwl o'i ddefnydd hyd yn hyn.¹⁴ Fe'i defnyddir mewn amrywiaeth eang o destunau, ac felly bydd cymaint o enghreifftiau o'i ddefnydd â phosibl yn gymorth i gyrraedd casgliad mwy cadarn ynghylch ei ystyr. Mae nifer o'r testunau yn ansicr eu dyddiadau, ond ar y cyfnod hyd at y bedwaredd ganrif ar ddeg y bydd y prif ffocws, gan roi sylw i ambell enghraifft ddiweddarach. Gwelir bod *anghyfiaith* yn digwydd yn bennaf mewn testunau o'r drydedd ganrif ar ddeg. Ystyrir tri chlwstwr o destunau yma: cyfraith, barddoniaeth a rhyddiaith.

Cyfraith

Ni cheir nifer fawr o gyfeiriadau at *anghyfiaith* yn y testunau cyfreithiol. Fodd bynnag, mae defnydd achlysurol o'r gair yn dangos i gasglwyr y cyfreithiau gredu bod iaith yn sail i gategoreiddio grwpiau o bobl. Er mwyn deall ei ystyr mewn cyd-destun cyfreithiol, gellir cymharu'r defnydd ohono ar draws yr amrywiol fersiynau Cymraeg o'r cyfreithiau, yn ogystal â'r hyn a geir yn y testunau Lladin. Mae dyddiadau'r testunau'n ansicr, a'r berthynas rhyngddynt yn gymhleth, ond mae'r llawysgrifau dan sylw i gyd yn dyddio o ganol y drydedd ganrif ar ddeg neu ddiweddarach.¹⁵

Ceir dwy enghraifft yn Llyfr Iorwerth (*Ior*), y gyntaf yn ymwneud â'r bobl hynny na allant roi mach:

¹³ GPC d.g. *cyfiaith*; *anghyfiaith*.

¹⁴ Noda R. R. Davies, 'Peoples of Britain and Ireland Ireland ... IV', 12, fod *anghyfiaith* yn cyfateb i *alltud*, ond nid yw'r enghreifftiau yn y testunau y mae'n cyfeirio atynt ('Historia Gruffud vab Kenan' a 'Buchedd Beuno') yn dystiolaeth amlwg o hyn. Trafodir y testunau hyn ymhellach isod 0000.

¹⁵ *Ior* = y fersiwn a elwir 'Llyfr Iorwerth' neu'r 'Venedotian Code', gw. Aled Rhys Wiliam (gol.), *Llyfr Iorwerth: A Critical Text of the Venedotian Code of Medieval Welsh Law* (Cardiff: UWP, 1960); *Cyfn* = y fersiwn a elwir 'Llyfr Cyfnerth' neu'r 'Gwentian Code', gw. A. W. Wade-Evans (gol.), *Welsh Medieval Law* (Oxford: Clarendon, 1909); *Bleg* = y fersiwn a elwir 'Llyfr Blegywryd' neu'r 'Dimetian Code', gw. Melville Richards (gol.), *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llawysgrif Coleg yr Iesu LVII Rhydychen* (Caerdydd: GPC, 1990). Gw. hefyd Stephen J. Williams a J. Enoch Powell (goln), *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd (Dull Dyfed)* (Caerdydd: GPC, 1961). Cyfeirir at y fersiynau Lladin fel Lladin A, B, D ac E, gw. Hywel D. Emanuel (gol.), *The Latin Texts of the Welsh Laws* (Cardiff: UWP, 1967). Ymhellach ar ddosbarthiadau'r testunau, gw. T. M. Charles-Edwards, *The Welsh Laws* (Cardiff: UWP, 1989), 17–48.

Llawer o denyon ne dele menet en uach na rody mach sef achau yu, cane deleant hue guadu mach ny deleant huenteu rody mach: nyt amgen, menach ac eremyduur a den agkyuyeyth ac escoheyc escol a phob den ny allo hep kanhyat arall guassanaethu keureyth.¹⁶

Mae llawer o ddynion nad oes ganddynt hawl i fod yn fach na rhoi mach, a'r rheswm yw, gan nad oes ganddynt hawl i wadu mach, nid oes ganddynt hawl i roi mach: sef, mynach a meudwy a dyn *anghyfaith* ac ysgolhaig o ysgol a phob dyn na allo wasanaethu'r gyfraith heb ganiatâd rhywun arall.

Yma, trinnir yr *anghyfaith* yn gategori 'sydd o dan anallu cyfreithlon'.¹⁷ Mae testun Llyfr Colan (*Col*), sydd yn addasiad o *Ior*, gan gynnwys ychwanegiadau o ffynhonnell Ladin, a gynhyrchwyd yn y drydedd ganrif ar ddeg, ychydig yn wahanol.¹⁸ Yn ogystal â'r *anghyfaith*, rhestra *Col* yn fwy penodol *manach heb ganyat y abat, yscolheyc heb gannyat y athro*.¹⁹ Cynigia Robin Chapman Stacey eglurhad o'r gwahaniaeth hwn. Mae'r adran hon sy'n gwahardd unigolion arbennig rhag rhoi mach yn ymddangos ar ryw ffurf ym mhob fersiwn o'r cyfreithiau, ac yn debygol o fod yn hynafol.²⁰ Dadleua Chapman Stacey fod dau draddodiad i'r rheol, un yn ogleddol a gynrychiolir gan *Ior*, a'r llall yn ddeheuol a gynrychiolir gan Lyfr Cyfnerth (*Cyfn*) a'r testunau Lladin. Ar ben hynny, deilliai'r ail draddodiad yn y pen draw o'r *Collectio Canonum Hibernensis*, a gynhyrchwyd yn gynnar yn yr wythfed ganrif.²¹ Gan fod golygydd *Col* wedi tynnu ar ffynhonnell Ladin yn ogystal â thestun *Ior*, mae'n debyg iddo benderfynu glynu wrth y Lladin yn yr adran hon, o ystyried bod y testunau Lladin sydd wedi

¹⁶ Wiliam, *Llyfr Iorwerth*, §56 (t. 40).

¹⁷ Dafydd Jenkins (gol.), *Llyfr Colan: y Gyfraith Gymreig yn ôl Hanner Cyntaf Llawysgrif Peniarth 30* (Caerdydd: GPC, 1963), 63 n. 116. Am drafodaeth ar swyddogaeth *mach*, gw. Dafydd Jenkins, *Cyfraith Hywel: Rhagarweiniad i Gyfraith Gynhenid Cymru'r Oesau Canol* (Llandysul: Gomer, 1970), 45–6, 81–4.

¹⁸ Ymhellach ar Lyfr Colan a'i berthynas gydag *Ior*, gw. Jenkins, *Llyfr Colan*, xxvi–xxxiii; Charles-Edwards, *Welsh Laws*, 21.

¹⁹ Jenkins, *Llyfr Colan*, §116 (t. 8).

²⁰ Robin Chapman Stacey, 'The Archaic Core of Llyfr Iorwerth', yn T. M. Charles-Edwards, Morfydd E. Owen a D. B. Walters, *Lawyers and Laymen: Studies in the History of Law* (Cardiff: UWP, 1986), 15–46 (21).

²¹ Chapman Stacey, 'Archaic Core', 21–2. Ar y berthynas gyda'r *Collectio Canonum Hibernensis*, gw. hefyd Huw Pryce, 'Early Irish Canons and Medieval Welsh Law', *Peritia*, 5 (1986), 107–27.

goroesi hefyd yn gwahardd mynaich ac ysgolheigion yn benodol rhag rhoi mach, heb ganiatâd eu habadau a'u hathrawon.²²

Mae hyn yn arwyddocaol yn y cyd-destun hwn gan mai yn nhraddodiad *Ior* yn unig y ceir y cyfeiriad at *anghyfiaith*. Yn ôl Llyfr Blegywryd (*Bleg*), *ny dyly neb rodi alltut yn uach a chyfeirir yn Lladin A, B, D ac E at exul*.²³ Cyfeirir at *alltut* yn *Cyfn* hefyd, ond gyda'r sylw diddorol ychwanegol: *kanyt geir y eir ar gymro*.²⁴ Mae'n debygol mai *geir* yn yr ystyr 'tystiolaeth' a olygir yma, er bod yr elfen ieithyddol, ynghyd â'r cyferbyniad clir rhwng Cymro ac alltud yn ddiddorol yng nghyd-destun defnydd *Ior* o *anghyfiaith*.²⁵ Dadleua Chapman Stacey i *Ior* a *Cyfn* dynnu ar yr un ffynhonnell yn y pen draw yn eu hymdriniaeth â *meichiau*, er eu bod yn atgynhyrchu'r ffynhonnell honno mewn ffyrdd gwahanol.²⁶ Fel y trafodwyd uchod, cafodd yr adran ar unigolion na fedrant roi mach ei haddasu yn *Cyfn* dan ddylanwad y *Collectio Canonum Hibernensis*.²⁷ Ond mae'r ddibyniaeth debygol hon ar yr un ffynhonnell sylfaenol yn awgrymu'r posibilrwydd o gysylltiad rhwng y cyfeiriad at *anghyfiaith* a *geir* yn *Ior* a'r ymadrodd *kanyt geir y eir ar gymro* yn *Cyfn*.

Mae'r defnydd o *anghyfiaith* ac *alltud* yn yr union gyd-destun yn y gwahanol destunau yn codi cwestiynau pellach ynghylch ystyr *anghyfiaith*. Hynny yw, a oedd y casglwyr yn defnyddio *anghyfiaith* fel ffordd arall o gyfeirio at alltud? Mae'r ail enghraifft o *anghyfiaith* yn *Ior* yn taflu goleuni pellach ar y cysylltiad posibl hwn:

²² Chapman Stacey, 'Archaic Core', 22. Er hyn, nodir yn Jenkins, *Llyfr Colan*, xxx–xxxii, nad un o'r testunau Lladin sydd wedi goroesi yw ffynhonnell *Col*, gan na allai unrhyw un o'r testunau hynny fod yn sail i'r holl newidiadau a wnaethpwyd i destun *Ior*.

²³ Richards, *Cyfreithiau Hywel Dda*, 31; Emanuel, *Latin Texts*, 125 (Lladin A), 217 (Lladin B), 369 (Lladin D) a 459 (Lladin E).

²⁴ Wade-Evans, *Welsh Medieval Law*, 88.

²⁵ *GPC* d.g. *gair* 4.

²⁶ Chapman Stacey, 'Archaic Core', 32–4.

²⁷ Chapman Stacey, 'Archaic Core', 34.

Teyr guraged e dele eu mebyon uamuys herwyd keureuth: mab Kemraes a roder e alltut; a mab gureyc a vystler eg gulat agkyuyeyth, o cheyff beychyogy gan e guestlau hytheu o'e chenedel a'e hargluyd; a gureyc e dycco alltut treys arney.²⁸

Mae tri math o wragedd y mae gan eu meibion hawl i gael mamwys yn ôl y gyfraith: mab Cymraes a roddir i rywun alltud; a mab gwraig wedi ei gwystlo i wlad *anghyfaith*, os caiff ei beichiogi wedi ei rhoi yn wystl gan ei chenedl a'i harglwydd; a gwraig a dreisir gan alltud.

Nid oes adran benodol o drioedd cyfreithiol yn *Ior* (fel y ceir yn *Bleg* a *Cyfn*), ond ychwanegwyd trioedd mewn mannau perthnasol yn y testun. Mae'r triawd hwn, er enghraifft, yn ymddangos fel rhan o gyfraith menywod.²⁹ Mae'r triawd yn awgrymu bod *alltut* a *gulat agkyuyeyth* yn ddwy ochr i'r un geiniog. Mewn dau o'r achosion mae tad y mab yn alltud – hynny yw, yn rhywun o wlad arall – ac yn y trydydd achos mae'r fam ei hun yn cael ei rhoi yn wystl i wlad arall.³⁰ Mynegir hyn yn gliriach mewn adran ddiweddarach o *Ior*, sy'n rhestru'r unigolion hynny sydd â hawl – yn groes i'r arfer – i etifeddiaeth o genedl y fam.³¹ Fel yr awgrymir gan y datganiad agoriadol (*e keyreyth eyssyoes a dyweyt* 'mae'r gyfraith wedi dweud yn barod'), ehangiad yw hyn ar y triawd a gafwyd eisoes. Rhestrir y tair gwraig unwaith eto: 1) yn briod i alltud; 2) yn cael ei threisio gan alltud; 3) yn cael ei rhoi fel gwystl i wlad arall. Yn ddiddorol, nid *a vystler eg gulat agkyuyeyth* a geir ond *eg guystleyryaeth alltuded*, gan awgrymu ymhellach fod *anghyfaith* ac *alltudedd* yn cael eu trin fel cyfystyron.

Yn *Ior* yn unig y ceir y triawd cyntaf, ond mae'r ail driawd yn ymddangos – er ar ffurf ychydig yn wahanol – yn y testunau eraill. Fodd bynnag, dim ond cyfeirio at y wraig yn cael

²⁸ Wiliam, *Llyfr Iorwerth*, §53 (t. 30). Gw. hefyd *Cyfn* (Wade-Evans, *Welsh Medieval Law*, 127); Sara Elin Roberts, *The Legal Triads of Medieval Wales* (Cardiff: UWP, 2011), 54.

²⁹ Am gyflwyniad i'r trioedd cyfreithiol, gw. Sara Elin Roberts, 'The Welsh Legal Triads', yn Thomas G. Watkin (gol.), *The Welsh Legal Triads and Other Essays* (Bangor: Welsh Legal History Society, 2012), 1–22; Roberts, *Legal Triads*, 4–38. Ar y trioedd yn *Ior* yn benodol, gw. Sara Elin Roberts, 'The Iorwerth Triads', yn Fiona Edmonds a Paul Russell (goln), *Tome: Studies in Medieval Celtic History and Law* (Woodbridge: Boydell Press, 2011), 155–64. Am wahanol agweddau ar gyfraith menywod, gw. Dafydd Jenkins a Morfydd E. Owen (goln), *The Welsh Law of Women* (Cardiff: UWP, 1980).

³⁰ Trafodir diffiniad a statws alltud ymhellach isod, 0000.

³¹ Wiliam, *Llyfr Iorwerth*, §86 (t. 56). Gw. ymhellach Jenkins, *Cyfraith Hywel*, 56.

ei rhoi yn wystl a wna'r testunau eraill, hynny yw ni sonnir am wlad *anghyfiaith* nac *alltued*. Felly yn *Bleg*:

Teir gwraged a dyly eu meibyon tref eu mam: gwreic a roder dros y that yng gwystyl, a chaffel mab ohonei yn y gwystloryaeth; a gwreic a roder o rod kenedyl y alltut; a gwreic a lader gwr o'e chenedyl, a dial o'e mab hitheu hwnnw; ny dylyir y oedi am dref y uam nac aros nawuettydeu yn y erbyn.³²

Mae tri math o wragedd y mae gan eu meibion hawl i gael etifeddiaeth eu mam: gwraig a roddir dros ei thad yn wystl, ac a gaiff fab yn y wystloraeth; a gwraig a roddir i rywun alltud yn rhodd gan ei chenedl; a gwraig y lleddir gŵr o'i chenedl, a dial hynny gan ei mab hithau; ni ddylir ei rwystro rhag cael etifeddiaeth ei fam nac aros naw niwrnod amdani.

Yn *Bleg* (ac yn *Cyfn*) ni restrir gwraig yn cael ei threisio gan alltud, a chyfeirir yn lle hynny at fab sy'n dial am ladd dyn o genedl ei fam.³³ Mae statws y wraig a roddir yn wystl ychydig yn amwys yma. Noda Sara Elin Roberts y tebygrwydd mai alltud yw tad y mab yn yr achos hwn hefyd. Nid oedd gan alltud hawl i etifeddu tir, ac felly byddai'n rhaid i fab alltud droi at genedl ei fam am etifeddiaeth gan mai hwy a fyddai'n gyfrifol am roi'r wraig yn wystl.³⁴ Cefnogir y dehongliad hwn gan ddatganiad *Ior* mai *eg guystleyryaeth alltued* y rhoddir y wraig. Yng nghyd-destun cyfraith menywod *Ior*, mae rhoi gwraig *eg guystleyryaeth alltued* a'i rhoi yn wystl *eg gulat agkyuyeyth* yn cyfateb i'w gilydd. Awgryma hyn yn ei dro mai unigolyn a ddaethai o wlad *anghyfiaith* yw *alltud*.

Mae ystyried ymdriniaeth *Ior* â'r *alltud* yn fwy cyffredinol yn taflu goleuni pellach ar y cysylltiad ag *anghyfiaith*. Rhoddir y cyfarwyddiadau canlynol i alltudion a oedd am adael eu harglwyddi cyn dod yn briodwyr:³⁵

³² Richards, *Cyfreithiau Hywel Dda*, 35; gw. hefyd *Cyfn* (Wade-Evans, *Welsh Medieval Law*, 126).

³³ Am drafodaeth ar y newid hwn, gw. Sara Elin Roberts, 'Emerging from the Bushes: The Welsh Law of Women in the Legal Triads', yn Joseph F. Eska (gol.), *Law, Literature and Society* (Dublin: Four Courts Press, 2008), 58–76 (65–6).

³⁴ Roberts, 'Emerging from the Bushes', 65; hefyd Jenkins, *Cyfraith Hywel*, 56.

³⁵ Hynny yw, yn un â pherchnogaeth lawn ar dir. Am drafodaeth gw. Jenkins, *Cyfraith Hywel*, 16.

Ac os o'r enys hon yd hanuydant ny deleant trygyau en un lle e tu hun e Glauf Offa; ac os tra mor yd hanuydant ny deleant trygyau yma namen hyt ar e guynt kentaf e caffoent mynet y eu gulat, ac o thrygant, emchuelent ar eu keythywet ual kynt.³⁶

Ac os ydynt yn hanu o'r ynys hon ni ddylent drigo mewn un lle yr ochr hon i Glawdd Offa; ac os ydynt yn hanu o dramor ni ddylent drigo yma onid nes iddynt allu mynd ar y gwynt cyntaf i'w gwlad, ac os trigant, boed iddynt ddychwelyd i'w caethiwed flaenorol.

Yma, mae *Ior* yn tybio bod yna ddau fath o *alltud*, y naill yn dod o'r *ynys hon* a'r llall o *dramor*. Yn yr achos cyntaf, nid oes hawl gan yr *alltud* i drigo mewn unrhyw fan yr ochr hon i Glawdd Offa. Rhywun a ddeuai o'r tu hwnt i Gymru, fel y'i diffiniwyd gan Glawdd Offa, oedd yr *alltud* felly. Mae goblygiadau yma i'n dealltwriaeth o'r defnydd o *anghyfiaith* yn *Ior*. Os yw golygydd *Ior* yn gweld cyfatebiaeth rhwng *alltudiaeth* a thrigo mewn gwlad *anghyfiaith* (fel yr awgrymir gan yr ymdriniaeth o fenywod yn cael eu rhoi'n wystlon), yna gwlad *anghyfiaith* yw unrhyw wlad y tu hwnt i Gymru. Diffinnir Cymru gan Glawdd Offa a hefyd gan ei hiaith.

Ceir enghraifft arall o ryngweithio rhwng *alltud* ac *anghyfiaith* mewn rheol sy'n nodi na ddylid dienyddio *alltud* am gymryd bwyd a diod yn ystod ei dri diwrnod cyntaf yn yr ardal. Yn *Col* nodir:

Alldut tros uor neu o wlat aghyueyth ny deleyr y dyenydu am uuyt a dyaut hyt em pen teyr nos a trydyeu, canys ryt yv eythyr talu y perchennauc yr eydau.³⁷

Yn achos *alltud* o dramor neu o wlad *anghyfiaith*, ni ddylid ei ddienyddio am fwyd a diod nes i dair noson a thri diwrnod fynd heibio, oherwydd rhydd yw ond iddo dalu perchennog yr eiddo.

Mae'n debyg y defnyddir *gwlat aghyueyth* yma i gyfeirio at wledydd eraill yn ynys Prydain, fel categori ychwanegol o *alltud*, ynghyd ag *alltudion* oddi tramor, fel y gwelwyd yn yr

³⁶ Wiliam, *Llyfr Iorwerth*, §89 (t. 59). Am hawliau'r *alltud* a'r broses o ddod yn briodor, gw. Jenkins, *Cyfraith Hywel*, 16.

³⁷ Jenkins, *Llyfr Colan*, §406 (t. 24).

enghraifft flaenorol. Yn *Ior*, cyfeiriad at *alltudyon tra mor neu o wlat arall* a geir.³⁸ Yn y ddau achos, *alltudion* yw'r rhai hynny sy'n dod o'r tu hwnt i Gymru, boed dros y môr neu o wlad arall ym Mhrydain, ac yn achos *Col* defnyddir *anghyfiaith* i gyfleu hyn. Yn achlysurol, felly, defnyddir *anghyfiaith* i gyfeirio at wlad – a'i thrigolion – y tu hwnt i Gymru, gyda Chymru'n cael ei diffinio ar sail ei hiaith. Fodd bynnag nid yw'r defnydd hwn yn gyson, fel y gwelir yn *Ior*, gydag *anghyfiaith*, *alltudiaeth* a *gwlad arall* yn cael eu defnyddio yn gyfnewidiol.

Yn yr enghreifftiau a ystyriwyd hyd yn hyn, ni roddwyd sylw i iaith yn y testunau Lladin. Ond nid yw hyn yn wir ym mhob achos. Mewn triawd arall, rhestrir y rhai hynny a ddylai gael *tafodiog*, sef rhywun i'w cynrychioli yn y llys.³⁹ Yn ôl *Bleg*:

Tri dyn a dyly tauodyawc yn llys: gwreic, ac alltut agkyfyeithus, a chryc anyanawl. Vn dyn hagen a dyly dewis y dauotyawc – arglwyd; ac ef a dyly kymell y'r rei ereill tauodogyon.⁴⁰

Mae tri math o bobl sydd â hawl i gael tafodiog yn y llys: gwraig, alltud *anghyfieithus*, a rhywun cryg ei natur.⁴¹ Ond un dyn sydd â hawl i ddewis y tafodiog – arglwydd; ac ef sydd â hawl i orfodi tafodogion ar y rhai eraill.

Ceir yr un rhestr (gan gynnwys y cyfeiriad at *alltut agkyfuyeithus*) yn *Cyfn*.⁴² Yn yr achos hwn, mae'n debygol mai statws yr alltud fel *anghyfiaith* sy'n bwysig. Hynny yw, ni allai unigolyn nad oedd yn medru'r iaith gynrychioli ei hun yn y llys. Gan fod *Bleg* ar y cyfan yn gyfieithiad i'r Gymraeg o fersiwn cynharach o Ladin D, nid yw efallai'n fawr o syndod fod gan Ladin D destun tebyg:

³⁸ Wiliam, *Llyfr Iorwerth*, §115 (t. 80). Mae *Ior* yn ychwanegu a *gueynnyeyt*. Ymhellach ar yr ystyr, gw. y nodyn ar §115.38 yn Wiliam, *Llyfr Iorwerth*, 26; Jenkins, *Llyfr Colan*, 117 n. 406. Noda Jenkins fod *aghyuyeyth* yn ymddangos mewn dwy o'r llawysgrifau. Cymh. Emanuel, *Latin Texts*, 246 (Lladin B) a 496 (Lladin E): *alltut ex longa regione proveniens* 'alltud yn dod o ardal bell'.

³⁹ Ar ystyr *tafodiog* yn y cyd-destun hwn, gw. Roberts, *Legal Triads*, 263.

⁴⁰ Richards, *Cyfreithiau Hywel Dda*, 36.

⁴¹ Naill ai rhywun â llais cras neu ac atal dweud arno, gw. *GPC* d.g. *cryg*. Cymh. Lladin D (wedi ei ddyfynnu isod) sy'n cyfeirio at *raucus*, *id est*, *cryc* ('y cras ei lais, hynny yw, cryg'): Ashdowne et al., *Dictionary of Medieval Latin from British Sources*, d.g. *raucus*.

⁴² Wade-Evans, *Welsh Medieval Law*, 130.

Tres sunt homines quorum quisque a rege debet habere prelocutorem, id est, *tauodyawc*, versus alios in curia ... Primus est raucus, id est, *cryc*. Secundus est femina. Tercius, exul qui nesciat recte loqui Walensice.⁴³

Mae tri math o bobl sydd â hawl i gael gan y brenin rywun i siarad drostynt, sef, tafodiog, yn erbyn eraill yn y llys ... Y cyntaf yw'r cras ei lais, hynny yw, cryg. Yr ail yw menyw. Trydydd, alltud nad yw'n gallu siarad yn gywir yn Gymraeg.

Cyfeirir yma at alltud nad yw'n medru siarad Cymraeg yn iawn. Ceir cadarnhad, felly, fod *anghyfiaith* yn cyfeirio'n benodol at bobl ddi-Gymraeg. Mae Lladin B hefyd yn cynnwys y triawd hwn, ar ffurf ychydig yn wahanol:

Tres homines sunt qui debent iudicio habere in curia linguam: scilicet, mulier; et ille qui loquela patrie in qua sit nescit; et kric.⁴⁴

Tri math o bobl sydd â hawl i gael tafodiog (*linguam*) ar gyfer dyfarniad mewn llys: sef, menyw; a'r hwn sy'n anwybodus o iaith y wlad y mae ynnddi; a chryg.

Mae tystiolaeth Lladin B yn cadarnhau mai iaith sy'n bwysig yma; nid yw'r testun yn galw unigolyn yn *alltud*, ond yn hytrach yn cyfeirio at unrhyw un nad yw'n medru iaith y wlad. Mae'n bosibl, felly, nad oedd y gyfraith hon yn berthnasol i'r alltudion hynny a oedd wedi dysgu'r iaith. Er nad yw Lladin B yn cyfeirio at y Gymraeg yn benodol, mae'n awgrymu mai dim ond un iaith sydd gan y *patria*.

Mae'r achos hwn ychydig yn wahanol i'r enghreifftiau a welwyd yn *Ior*. Unwaith eto mae yna gysylltiad rhwng *anghyfiaith* ac *alltud*, ond mae'r elfen ieithyddol yn bwysig yn ymarferol. Tra bo hyn yn debyg o fod yn gyfieithiad o'r Lladin yn achos *Bleg*, mae'r defnydd o *anghyfiaith*

⁴³ Emanuel, *Latin Texts*, 354. Ar y berthynas rhwng *Bleg* a Lladin D, gw. Hywel D. Emanuel, 'Llyfr Blegywryd a Llawysgrif Rawlinson 821', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 19 (1960), 23–8; Charles-Edwards, *Welsh Laws*, 20, 31–4.

⁴⁴ Emanuel, *Latin Texts*, 244.

yn yr un cyd-destun yn *Cyfn* yn dangos ei fod yn gyffredin y tu hwnt i'r traddodiad Lladin yn unig. I gefnogi hyn, ceir cyfeiriad arall at *anghyfiaith* ychydig linellau ynghynt yn *Cyfn*:

Hyn odynyon adieinc rac llŵ gweilyd. Arglŵyd. ac escob. A mut a bydar ac aghyfieithus agŵreic veichaŵc.⁴⁵

Dyma'r bobl a all ddianc rhag llw gweilydd: arglwydd ac esgob, mud a byddar ac anghyfieithus, a gwraig feichiog.

Mae'n debyg mai rhesymau ymarferol a oedd yn gyfrifol am gynnwys yr *anghyfieithus* yma, gan na allai rhywun na fedrai'r iaith Gymraeg dyngu llw.⁴⁶ Nid yw'r rhestr hon o ddynion nad ydynt yn rhoi *llw gweilydd* yn ymddangos yn y testunau Cymraeg eraill, ond ceir adran gyfatebol yn Lladin E:

Hii sunt qui non debent dare *llw gweilit*: dominus, episcopus, surdus, mutus, et qui nescit linguam patrie, mulier pregnans.⁴⁷

Dyma'r rhai na chaniateir iddynt roi llw gweilydd: arglwydd, esgob, y byddar, y mud, a rhywun nad yw'n medru iaith y wlad, menyw feichiog.

Ymddengys, felly, fod y rhai hynny na siaradent iaith y *patria* – yr *anghyfiaith* yn Gymraeg – yn gategori pwysig ar draws y testunau cyfreithiol.

Defnyddir *anghyfiaith* mewn dwy brif ffordd yn y cyfreithiau. Yn ymarferol, nid oedd unigolion na fedrai siarad iaith y wlad (cyfeirir at y Gymraeg yn benodol mewn un enghraifft) yn gallu cymryd rhan mewn rhai gweithrediadau cyfreithiol. Ond yn *Ior* defnyddir *anghyfiaith* hefyd ynghlwm â disgrifiadau o alltudiaeth, boed yn alltud yn dod i Gymru neu Gymraes yn cael ei hanfon i alltudiaeth. Y goblygiad yw bod Cymru, sy'n cael ei diffinio yn ddaearyddol yn y cyfreithiau trwy gyfeirio at Glawdd Offa, hefyd yn bodoli fel uned ieithyddol.

⁴⁵ Wade-Evans, *Welsh Medieval Law*, 130.

⁴⁶ Am *llw gweilydd*, gw. *GPC* d.g.

⁴⁷ Emanuel, *Latin Texts*, 506.

Barddoniaeth

Mae'r cyfreithiau yn dangos yn glir mai'r *anghyfiaith* yw'r rhai hynny na fedrant y Gymraeg. Dyma yw ystyr debygol *anghyfiaith* mewn nifer o gerddi Cymraeg hefyd. Nid yw'r *anghyfiaith* yn siaradwyr Cymraeg, ac, os yw *iaith* yn gyfystyr â chenedl, nid ydynt yn Gymry. Ceir enghraifft o hyn yn y gerdd 'Oianau Myrddin' yn Llyfr Du Caerfyrddin. Ynnddi, mae Myrddin, sydd wedi gwallgofi ar ôl brwydr Arfderydd, yn sgwrsio gyda phorcell ac yn darogan digwyddiadau'r dyfodol.⁴⁸ Ceir cyfeiriadau at rai digwyddiadau a ffigyrau hanesyddol, a chysyllta A. O. H. Jarman y sôn am wrthdaro rhwng Llywelyn a Lloegr â digwyddiadau 1211–12 pan losgodd y Brenin John dref Bangor a chipio'r esgob.⁴⁹ Mae'n rhaid, felly, fod rhan o'r gerdd yn dyddio o'r cyfnod rhwng 1212 a chreu'r llawysgrif tua 1250, er nad yw'r gerdd gyfan o reidrwydd yn perthyn i'r un dyddiad. Daw'r cyfeiriad at *anghyfiaith* yn ddiweddarach yn y gerdd, wrth i Fyrddin amlinellu byd wedi ei droi â'i ben i waered, gan gynnwys *escyp agkyueith diffeith difid*.⁵⁰ Mae'r bardd yn cyplysu'r ffaith nad yw'r esgobion o'r un iaith gyda'r honiad eu bod yn ddi-ffydd. Mae ymddygiad annerbyniol esgobion a ffigyrau eglwysig eraill yn thema y dychwelir ati mewn manau eraill yn y gerdd, gyda'r bardd yn proffwydo y bydd mynaich yn pechu ac esgobion yn rhoi lloches i'r rhai hynny a fuasant yn ymosod ar eglwysi.⁵¹

Mae'r defnydd o *anghyfiaith* yn ddiddorol yma gan fod tystiolaeth o anfodlonrwydd ynghylch apwyntio esgobion nad oeddent yn medru'r Gymraeg i swyddi eglwysig yng Nghymru yn y ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg. Felly, yn ei *De iure et statu Menevensis ecclesiae*, a gyfansoddwyd tua 1218, mae Gerallt Gymro yn atgynhyrchu llythyr y mae'n honni iddo gael ei anfon at y Pab gan Lywelyn ab Iorwerth ynghyd â thywysogion Powys a Deheubarth ar ddechrau'r drydedd ganrif ar ddeg.⁵² Mae'r llythyr yn rhybuddio'r Pab fod archesgobion Caer-gaint yn gorfodi esgobion ar y Cymry nad oeddent yn deall eu hiaith na'u harferion. Yn ôl y llythyr, ni allai'r esgobion hyn bregethu na gwrando ar gyffes heb gymorth cyfieithydd. Er bod lle i gwestiynu dilysrwydd y llythyr, mae gwaith Gerallt yn tystio i'r

⁴⁸ Ymhellach ar y gerdd, gw. A. O. H. Jarman (gol.), *Llyfr Du Caerfyrddin* (Caerdydd: GPC, 1982), xxxv–xl; A. O. H. Jarman, *The Legend of Merlin* (Cardiff: UWP, 1960), 15–18.

⁴⁹ Jarman, *Llyfr Du Caerfyrddin*, xxix–xxx. Ar y cyd-destun hanesyddol, gw. Ifor W. Rowlands, 'King John and Wales', yn S. D. Church (gol.), *King John: New Interpretations* (Woodbridge: Boydell Press, 1999), 273–87.

⁵⁰ Jarman, *Llyfr Du Caerfyrddin*, cerdd 17.186.

⁵¹ Jarman, *Llyfr Du Caerfyrddin*, cerdd 17.81–2.

⁵² Huw Pryce (gol.), *Acts of the Welsh Rulers 1120–1283* (Cardiff: UWP, 2005), rhif 220 (tt. 369–70).

safbwynt fod esgobion di-Gymraeg yn broblem yng Nghymru yn y ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg.⁵³ Awgrym pellach o'r fath anfodlonrwydd yw'r ffaith fod nifer o esgobion di-Gymraeg wedi eu gyrru allan o esgobaeth Bangor yn y cyfnod hwn.⁵⁴ Er bod y rhesymau dros y deoliadau hyn yn gymhleth, ac nad oes modd eu cysylltu'n unig nac yn benodol â gwahaniaethau ieithyddol, maent yn sicr yn awgrymu anfodlonrwydd ynghylch apwyntio esgobion o'r tu hwnt i Gymru.

Yn achos 'Oianau Myrddin', felly, ymddengys fod *anghyfaith* yn cyfeirio at ddiffyg gallu ieithyddol yr esgobion yn y Gymraeg. Mwy cyffredin mewn barddoniaeth, serch hynny, yw'r defnydd o *anghyfaith* i gyfeirio at elyn seciwlar, fel arfer yng nghyd-destun brwydr. Ceir nifer o enghreifftiau o'r fath ddefnydd yng ngherddi Beirdd y Tywysogion, ond yn gyntaf mae yna un enghraifft yn y gerdd broffwydol *Ry dyrchafwy Duw ar plwyff Brython* o Lyfr Taliesin, sy'n ansicr ei dyddiad. Proffwydir dyfodiad Cadwallon ar draws Môr Iwerddon a dial y Cymry am farwolaeth Idwal (m. 942); ac meddai'r bardd, *ys trabludyo y Gath Vreith a'e hakyfieithon*.⁵⁵ Cyfeirir at y Saeson yn y llinell flaenorol ac felly mae'n debygol mai hwy yw'r *agyfieithon*. Ni ddefnyddir *anghyfaith* yn unman arall ym mhroffwydoliaethau Llyfr Taliesin i ddisgrifio'r Saeson. Yn fwy aml, cânt eu galw yn *gynhon*, a'r ffocws ar eu paganiaeth yn hytrach na'u hiaith.⁵⁶ Yn sgil y cyfeiriad at farwolaeth Idwal, awgrymodd Ifor Williams fod y gerdd wedi ei chyfansoddi tua 946, y cyfnod, yn ei farn ef, pan fyddai'r neges o ddial yn fwyaf perthnasol i drigolion Gwynedd.⁵⁷ Fodd bynnag, noda Marged Haycock ei bod yn bosibl fod marwolaeth

⁵³ Am grynodeb o'r amheuan ynghylch dilysrwydd y llythyr, gw. Pryce, *Acts*, 370–1.

⁵⁴ Gw. Dorothy M. Owen, 'Hervey (d. 1131)', *Oxford Dictionary of National Biography* (23.10.2004), <https://doi.org/10.1093/ref:odnb/13107>. Am drafodaeth bellach, gw. Shaun McGuinness, 'The Medieval Bishops of Bangor: Intrusion, Exile and Diplomacy' (i ymddangos). Noder hefyd hanes Robert o Amwythig, esgob Bangor 1197–1212, a gafodd ei ddal am bridwerth yn 1211: John Edward Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*, 2 gyf., 3ydd arg. (London: Longmans, 1939), II, 635 a n. 119.

⁵⁵ Marged Haycock (gol.), *Prophecies from the Book of Taliesin* (Aberystwyth: CMCS Publications, 2013), cerdd 6.23; am ystyr y *Gath Vreith*, gw. 121 n. 23.

⁵⁶ Haycock, *Prophecies*, cerdd 4, ll. 26. Gw. hefyd Ifor Williams (gol.), *Armes Prydein o Lyfr Taliesin* (Caerdydd: GPC, 1955), llau 176 a 183. Deillia *gynhon* o'r Lladin *gentes* ac fe'i defnyddir mewn cerddi i gyfeirio at baganiaid, fel arfer y Sacsoniaid a'r Llychlynwyr. Gw. J. Lloyd-Jones, *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (Caerdydd: GPC, 1950–63), 755; *GPC* d.g. *gynt*.

⁵⁷ Williams, *Canu Taliesin*, xvii. Gw. hefyd T. M. Charles-Edwards, *Wales and the Britons 350–1064* (Oxford: OUP, 2013), 661 n. 52.

Idwal wedi parhau i ysbrydoli'r Cymry dipyn yn ddiweddarach.⁵⁸ Mae'r cyfeiriad at Gadwallon yn dychwelyd dros Fôr Iwerddon yn peri cymhlethodau pellach. Er na allwn fod yn sicr pa Gadwallon sydd gan y bardd dan sylw yma, Cadwallon ap Cadfan yw'r ymgeisydd amlycaf, brenin Gwynedd yn y seithfed ganrif a thestun cerdd foliant a chyfres o englynion.⁵⁹ Mae'n ansicr pa mor hen yw'r cysylltiad rhyngddo ac Iwerddon. Yn ei *De gestis Britonum*, disgrifia Sieffre o Fynwy alltudiaeth Cadwallon yn Iwerddon cyn iddo ddychwelyd i Gymru i drechu Edwin, a cheir cyfeiriad at hyn hefyd yn y trioedd.⁶⁰ Efallai y tybiwyd bod cysylltiad rhwng Cadwallon ac Iwerddon ar sail sylw gan Beda yn ei *Historia ecclesiastica* fod Edwin wedi teyrnasu dros Ynys Môn, ond ni chyfeirir at Gadwallon yn benodol yma.⁶¹ O ganlyniad, mae'n aneglur i ba raddau – os o gwbl – yr oedd y cysylltiad hwn yn hysbys cyn cyfansoddi *De gestis Britonum* yn y ddeuddegfed ganrif. Mae dyddiad y gerdd yn ansicr, felly, ac nid oes rheswm arbennig i ffafrio dyddiad yn y ddegfed ganrif dros unrhyw ddyddiad arall.

Trwy ddefnyddio *anghyfiaith* i ddisgrifio'r Saeson mae'r bardd yn categoreiddio 'ni' a 'nhw' ar sail iaith. Ym marn Rees Davies, roedd awduron canoloesol yn derbyn bod iaith yn arwydd o wahaniaeth rhwng pobloedd, ond yn anaml iawn y'i hystyrid yn achos anghydfod.⁶² Nid iaith yw achos yr anghydfod yn y gerdd hon chwaith, ond mae'r defnydd o *anghyfiaith* yn dangos sut y gallai gyfrannu at adroddiadau o wrthdaro. Ceir tystiolaeth bellach o hyn yng ngherddi Beirdd y Tywysogion. Ymddengys y gair *anghyfiaith* mewn tair cerdd, dwy yn dyddio o'r ddeuddegfed ganrif ('Marwnad Owain Gwynedd' gan Ddaniel ab Llogwrn Mew ac 'Arwyrain Owain ap Madog' gan Gynddelw Brydydd Mawr) ac un o'r drydedd ganrif ar ddeg ('Mawl Llywelyn ap Gruffudd' gan Lygad Gŵr).

⁵⁸ Haycock, *Prophecies*, 110–11.

⁵⁹ Jenny Rowland (gol.), *Early Welsh Saga Poetry: A Study and Edition of the Englynion* (Cambridge: D. S. Brewer, 1990), 446–7, 495–6; R. Geraint Gruffydd, 'Canu Cadwallon ap Cadfan', yn Rachel Bromwich ac R. Brinley Jones (goln), *Astudiaethau ar yr Hengerdd: Studies in Old Welsh Poetry* (Caerdydd: GPC, 1978), 25–43. Gw. hefyd T. M. Charles-Edwards, 'Cadwallon [Cædwalla] ap Cadfan', *Oxford Dictionary of National Biography* (23.10.2004), <https://doi.org/10.1093/ref:odnb/4322>. Am ymgeiswyr eraill posibl, gw. Haycock, *Prophecies*, 119 n. 17.

⁶⁰ Haycock, *Prophecies*, 110; Michael D. Reeve a Neil Wright (goln a chyf.), *Geoffrey of Monmouth: The History of the Kings of Britain* (Woodbridge: Boydell Press, 2007), xi.193 [DGB o hyn ymlaen]; Rachel Bromwich (gol.), *Trioedd Ynys Prydein*, 3ydd arg. (Cardiff: UWP, 2006), 62, rhif 29.

⁶¹ Colgrave a Mynors, *Bede's Ecclesiastical History*, ii.5.

⁶² Davies, 'Peoples of Britain and Ireland ... IV', 3.

Yn achos ‘Marwnad Owain Gwynedd’, nid yw gwrthwynebu’r *anghyfiaith* yn dod ag unrhyw lawenydd i’r bardd wedi marwolaeth Owain (m. 1170), tra disgrifir Owain ap Madog yn elyn i *anghyfiaith* yn ‘Arwyrain Owain ap Madog’.⁶³ Mae Cynddelw hefyd yn disgrifio Owain yn *ysgwyd pedeiryeth* ‘amddiffynnwr y pedair cenedl’.⁶⁴ Mae ystyr *pedeiryeth*, a geir mewn sawl un o gerddi Beirdd y Tywysogion, yn amwys. Cynigiwyd mai cyfeiriad at y pedair rhan o Brydain (Cymru, Lloegr, yr Alban, Iwerddon neu Gernyw) neu’r pedair iaith a siaredid ym Mhrydain ydyw; y pedair rhan o Gymru (Dyfed, Gwynedd, Powys, Gwent); neu’r pedair gwahanol garfan o Frythoniaid (Brythoniaid Cymru, Cernyw, Ystrad Clud, Llydaw).⁶⁵ Ni ddylid diystyru, fodd bynnag, y posibilrwydd o ddehongli *pedeir* i olygu ‘perffaith’ yn y cyd-destun hwn.⁶⁶ Beth bynnag yw union ystyr *pedeirieith*, mae ei ddefnydd, ynghyd ag *anghyfiaith*, yn dyst i ddiddordeb Cynddelw mewn iaith fel gwahaniaeth rhwng pobloedd.

Mae diddordeb Llygad Gŵr mewn iaith yn fwy amlwg fyth. Dyddir ‘Mawl Llywelyn ap Gruffudd’ ar sail cyfeiriadau hanesyddol i 1258.⁶⁷ Tra bo’r gerdd yn cynnwys nifer o nodweddion cyffredinol y disgwylir eu gweld mewn cerdd fawl – moliant i haelioni Llywelyn, er enghraifft – mae Peredur Lynch o’r farn ei bod hefyd yn gerdd hynod o genedlaetholgar a gwrth-Seisnig.⁶⁸ Pwysleisia’r bardd hunaniaeth Gymreig Llywelyn a’i statws fel arweinydd ar

⁶³ Am olygiad ac aralleiriad o ‘Marwnad Owain Gwynedd’, gw. Kathleen Anne Bramley et al. (goln), *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif* (Caerdydd: GPC, 1994), cerdd 18 (*anghyfiaith* yn ll. 20). Am olygiad ac aralleiriad o ‘Arwyrain Owain ap Madog’, gw. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (goln), *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr I* (Caerdydd: GPC, 1991), cerdd 13 (*anghyfiaith* yn ll. 13).

⁶⁴ Jones a Parry Owen, *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr I*, cerdd 13.5–6. Mae Cynddelw yn disgrifio Madog ap Maredudd (m. 1160) yn yr un ffordd mewn marwnad iddo. Am y tebygrwydd rhwng y ddwy gerdd, gw. Jones a Parry Owen, *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr I*, 154–5.

⁶⁵ Am ddeongliadau amrywiol, gw. Jones a Parry Owen, *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr I*, 90 n. 26; Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (goln), *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr II* (Caerdydd: GPC, 1995), 29 (18.52n); Rhian M. Andrews et al. (goln), *Gwaith Bleddyn Fardd ac Eraill o Feirdd Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg* (Caerdydd: GPC, 1996), 243 (24.116n). Ceir trafodaeth hwy (lle cynigir bod *pedeiryeth* yn cyfeirio at garfannau o Frythoniaid) yn Rodway, ‘Four Nations’.

⁶⁶ Dehonglir *Kymry pedeirieith* mewn cerdd broffwydol o Lyfr Taliesin fel ‘Cymry o berffaith iaith’ yn Haycock, *Prophecies*, cerdd 7.47; a gw. y drafodaeth, tt. 138–9. Cymh. Rodway, ‘Four Nations’, 196–7.

⁶⁷ Andrews et al., *Gwaith Bleddyn Fardd*, 222–3.

⁶⁸ Defnyddir y term ‘cenedlaetholgar’ yn y cyd-destun hwn i ddisgrifio ymdrechion y bardd i hybu’r syniad o’r Cymry fel pobl unedig o dan arweinyddiaeth Llywelyn. Am y berthynas rhwng cenedlaetholdeb yn yr Oesoedd Canol a chenedlaetholdeb fodern, gw. Adrian Hastings, *The Construction of Nationhood: Ethnicity, Religion and*

Gymru gyfan unedig trwy ei ddisgrifio fel *taleithaŵc* ('gŵr coronog') Aberffraw, Dinefwr a Mathrafal, prif lysoedd Gwynedd, Deheubarth a Phowys.⁶⁹ Gosoda Lynch y cyfeiriad at Lywelyn fel gelyn estroniaid yn y cyd-destun hwn:

Arglwyt Lywelyn, lyw pedeiryeth.
Seuis yn ryuel (diymgel deith)
Rac estraŵn geneddyl gwyn anghyfeith.

Arglwydd Lywelyn, reolwr pedair cenedl.
Safodd mewn rhyfel (amlwg o hynt)
Yn erbyn cenedl estron [a'i] chŵyn [mewn] iaith ddieithr.⁷⁰

Mae'r enghraifft hon ychydig yn wahanol i'r achosion eraill a drafodwyd, gan fod *anghyfiaith* yn cyfeirio at gŵyn y genedl estron yn benodol. Felly, yn hytrach na defnyddio *anghyfiaith* fel disgrifiad o'r bobl mae Llywelyn yn eu gwrthwynebu, mae Llygad Gŵr yn pwysleisio mai eu hiaith yn benodol sy'n wahanol. Er gwaethaf y defnydd cyffredinol o *iaith* am 'genedl', nid yw'r bardd wedi colli golwg ar y dimensiwn ieithyddol: yr hyn sy'n diffinio pobl, ac yn eu gwneud yn wahanol i'w gilydd, yw iaith. Cyfeiria'r bardd hefyd at fyddin *gyfiaith* Llywelyn:

telediw, gad gywiw gyfyeith

[un] difefl, [un â] byddin gyfiaith [ag ef].⁷¹

Ceir cyferbyniad amlwg yma rhwng byddin Llywelyn, sy'n *gyfiaith* ag ef, a chŵyn *anghyfiaith* y gelyn. Mae hyn yn arbennig o ddiddorol oherwydd ni cheir enghraifft arall yng ngwaith Beirdd y Tywysogion o ddefnyddio *cyfiaith* ac *anghyfiaith* yn yr un gerdd.

Nationalism (Cambridge: CUP, 1997), 8–13; Anthony D. Smith, *The Ethnic Origins of Nations* (Oxford: Basil Blackwell, 1986), 6–18.

⁶⁹ Andrews et al., *Gwaith Bleddyn Fardd*, cerdd 24.107, 111 a 115, a'r drafodaeth, tt. 220–1. Gw. hefyd Peredur Lynch, 'Llygad Gŵr: Sylwebydd Cyfoes', yn J. E. C. Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XVI* (Dinbych: Gwasg Gee, 1990), 31–51 (34–40).

⁷⁰ Am y golygiad a'r aralleiriad, gw. Andrews et al., *Gwaith Bleddyn Fardd*, cerdd 24.116–18. Gw. hefyd Lynch, 'Llygad Gŵr', 38–9.

⁷¹ Am y testun a'r aralleiriad, gw. Andrews et al., *Gwaith Bleddyn Fardd*, cerdd 24.113.

Nid yw *cyfaith* yn ymddangos yn aml yn y corpws yn fwy cyffredinol. Ceir dwy enghraifft amwys yn ‘Mawl Rhodri ab Owain’ gan Walchmai ap Meilyr (fl. 1130–80) yn y ffurf *kyueith*. Yn yr achos cyntaf noda’r bardd os twylla Rhodri ni fydd ganddo *gyfaith* heblaw am Gain.⁷² Ni fyddai Cain a Gwalchmai ap Meilyr yn siarad yr un iaith, felly os *cyfaith* yw’r gair yma, yna mae’n dwyn ystyr ehangach. Fodd bynnag, cynigia’r golygyddion ei bod yn fwy tebygol mai *cywaith* a olygir, hynny yw ‘cydymaith’.⁷³ Yn yr ail enghraifft, noda Gwalchmai fri Rhodri yn Hebraeg a Lladin, a’i fod yn deilwng ym mhob *cyfaith*.⁷⁴ O ystyried y cyfeiriad at Hebraeg a Lladin yn y llinell flaenorol, deniadol yw dehongli *cyfaith* yn yr ystyr ‘iaith’ yma, hynny yw, fod Rhodri yn deilwng ym mhob iaith.⁷⁵ Ceir enghraifft arall o *gyfaith* yn ‘Canu i Gadfan’ gan Lywelyn Fardd (fl. c.1150–75), eto yn y ffurf *kyueith*. Yn yr achos hwn cyfeirir at Gadfan a Lleuddad (ei olynydd ar Ynys Enlli) fel *deu gyueith*.⁷⁶ Mae’r defnydd o *gyfaith* yn pwysleisio’r cysylltiad personol rhwng y ddau wr, yn debyg i’r cyfeiriad atynt fel *deu gefynderw* (‘dau gefnder’) ychydig linellau’n ddiweddarach.⁷⁷ Mae’r enghreifftiau prin o *gyfaith* yng ngherddi Beirdd y Tywysogion yn dangos defnydd amrywiol, felly. A thra bo goblygiadau positif i fod yn *gyfaith* gyda rhywun arall yn ‘Canu i Gadfan’, yn ‘Mawl Llywelyn ap Gruffudd’ yn unig y cyflwynir y brenin fel arweinydd pobl *gyfaith* yn erbyn yr *anghyfaith*. Hon yn sicr yw’r gerdd â’r ffocws mwyaf trwyadl ar iaith, sy’n cyd-fynd â’r disgrifiad ohoni fel cerdd genedlaetholgar, ond sydd hefyd yn awgrymu bod cysylltiad agos rhwng y cenedlaetholdeb hwn ac iaith.

Yn y rhan fwyaf o achosion yng ngherddi Cymraeg yr Oesoedd Canol, defnyddir *anghyfaith* i gyfeirio at elyn, naill ai gelyn y Cymry’n gyffredinol neu elyn yr unigolyn a folir yn benodol gan y bardd. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio nad yw pob enghraifft o *anghyfaith*

⁷² J. E. Caerwyn Williams a Peredur I. Lynch (goln), *Gwaith Meilyr Brydydd a’i Ddisgynyddion* (Caerdydd: GPC, 1994), cerdd 11.29.

⁷³ Williams a Lynch, *Gwaith Meilyr Brydydd*, 249 (11.29n).

⁷⁴ Williams a Lynch, *Gwaith Meilyr Brydydd*, cerdd 11.31–2.

⁷⁵ Williams a Lynch, *Gwaith Meilyr Brydydd*, 249 (11.32n); GPC d.g. *cyfaith* 1.

⁷⁶ Bramley et al., *Gwaith Llywelyn Fardd I*, cerdd 1.118.

⁷⁷ Bramley et al., *Gwaith Llywelyn Fardd I*, cerdd 1.121. Gw. y nodyn ar y llinell hon yn Ann Parry Owen (gol.), ‘Canu i Gadfan’, <https://www.seintiaucymru.ac.uk/edition/texts/verse/CadfanLIF/edited-text.cym.html>. Ceir cyfeiriad tebyg ym Muchedd Teilo, lle nodir bod Teilo a Samson o’r un iaith (*unius lingue uiri*), ynghyd â’r ffaith fod ganddynt yr un athro, er mwyn pwysleisio’r agosrwydd rhyngddynt, gw. Ben Guy (gol.), ‘Vita Sancti Teliaui (Liber Landavensis version)’, <https://www.seintiaucymru.ac.uk/ygolygiad/> (i ymddangos), §11.

yn cyd-fynd â'r patrwm hwn. Ceir enghraifft arall mewn cerdd o Lyfr Coch Hergest, *Gossymdeith Llefoet Wynebclawr*, sydd, yn ôl dehongliad Nicolas Jacobs, yn amlinellu'r gynhaliaeth foesol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd.⁷⁸ Yn dilyn cywiriad Jacobs i'r testun, mae'r bardd yn datgan [*m*]ut pobl anghyfyeth; cyfeiriad mae'n debyg at y ffaith na all pobl o iaith wahanol gyfathrebu.⁷⁹ Er nad gelyn yw'r *anghyfiaith* yn yr achos hwn, cyfeiria'r bardd at iaith fel elfen sy'n gallu achosi trafferthion wrth gyfathrebu.

Ceir enghraifft arall o *anghyfiaith* yn 'Dadl y Corff a'r Enaid' yn Llyfr Du Caerfyrddin, cerdd sydd, o bosibl, yn dyddio o'r ddeuddegfed ganrif.⁸⁰ Ynndi, ceir trafodaeth rhwng y corff a'r enaid wrth i'r corff ddioddef o salwch. Mae'r enaid yn rhybuddio'r corff am ei ymddygiad, ac yn amlinellu'r ffordd y dylai Cristion da ymddwyn.⁸¹ Wrth restru pechodau'r corff, noda'r enaid:

Ni phercheiste kiureith
Creudir New kin lleith
Llyaus aghiueith
A dodute ar di areith.

Ni pherchaist ti gyfraith
Creawdwr Nef cyn [dy] farwolaeth.
Llawer o eiriau gelyniaethus
A roddit ti ar dy araith.⁸²

Yn y cyd-destun hwn, noda Haycock ei bod hi'n bosibl fod *anghyfiaith* yn cyfeirio at eiriau anwedus, 'y rheini'n aml o darddiad estron, sef Ffrangeg neu Saesneg yn yr achos hwn', neu'n gyfeiriad mwy cyffredinol at eiriau 'anghyfeillgar, gelyniaethus'.⁸³ Yma, mae defnyddio

⁷⁸ Nicolas Jacobs (gol.), *Early Welsh Gnostic and Nature Poetry* (London: MHRA, 2012), 61.

⁷⁹ Jacobs, *Early Welsh Gnostic and Nature Poetry*, cerdd IX.99. Y llinell heb ei chywiro yw *medw ut, ut pobl anghyfyeth*; am y cywiriad. gw. 65 (IX.99n).

⁸⁰ Marged Haycock (gol.), *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar* (Abertawe: Cyhoeddiadau Barddas, 1994), 209–11. Cymh. Jarman, *Llyfr Du Caerfyrddin*, xlviii–xlix.

⁸¹ Am drafodaeth fanwl ar y cynnwys, gw. Haycock, *Blodeugerdd Barddas*, 203–5.

⁸² Am y testun a'r aralleiriad, gw. Haycock, *Blodeugerdd Barddas*, cerdd 21.77–80.

⁸³ Haycock, *Blodeugerdd Barddas*, 227 (21.79n).

geiriau *anghyfiaith* yn bechod, sy'n awgrymu agwedd negyddol tuag at ieithoedd eraill. Gellir cymharu, efallai, y defnydd o eiriau benthg Saesneg i sarhau'r Saeson yn *Armes Prydein Vawr*, gan eu disgrifio fel *ffoxas* yn ffoi trwy *uwrch* y ddinas.⁸⁴ Mae dehongliad Haycock hefyd yn arwyddocaol wrth feddwl ymhellach am iaith fel achos anghydfod rhwng pobloedd, a drafodwyd eisoes yng nghyd-destun *Rydyrchafwy Duw ar plwyff Brython*. Trwy ddefnyddio *anghyfiaith* i ddisgrifio geiriau sy'n anghyfeillgar neu'n anwedus, mae'r bardd yn awgrymu bod cysylltiad rhwng pobl sy'n siarad iaith arall ac anghyfeillgarwch.

Mae'r enghreifftiau olaf hyn yn dangos nad un defnydd yn unig sydd i *anghyfiaith* yn y farddoniaeth. Wedi dweud hynny, fe'i defnyddir yn fwyaf cyffredin i ddisgrifio gelyn. At elyn clerigol y cyfeiria yn 'Oianau Myrddin', ond fe'i cawn gan amlaf yn cyfeirio at elyn seciwlar. Gwahaniaethir rhwng y Cymry a phobloedd eraill ar sail iaith, strategaeth sy'n arbennig o amlwg yn y cyferbyniad rhwng *cyfiaith* ac *anghyfiaith* yn 'Mawl Llywelyn ap Gruffudd'. Mae defnyddio *anghyfiaith* i ddisgrifio gelyn hefyd yn awgrymu bod gan iaith rôl i'w chwarae nid yn unig wrth wahaniaethu rhwng pobloedd, ond hefyd wrth adrodd am anghydfod rhyngddynt. Efallai mai'r enghraifft fwyaf trawiadol yw'r enghraifft yn 'Dadl y Corff a'r Enaid'. Nid cerdd am bobloedd yw hon, ac nid yw'n adrodd am frwydr rhwng y Cymry a chenedl arall. Ond mae'r defnydd o *anghyfiaith* i ddisgrifio geiriau anwedus neu anghyfeillgar yn amlygu agwedd negyddol tuag at bobl sy'n siarad iaith arall, pobl *anghyfiaith*. Wedi dweud hynny, prin yw'r defnydd o *anghyfiaith* ar y cyfan; mae'n parhau i fod yn un ffordd ymysg nifer o ddisgrifio gelyn.

Rhyddiaith

Nid yw'r testunau a ystyriwyd hyd yn hyn wedi peri fawr o syndod: defnyddir *anghyfiaith* yn aml i ddisgrifio gelynion yn y farddoniaeth ac i gyfeirio at bobl ddi-Gymraeg yn y cyfreithiau. Fodd bynnag, mae'r testunau rhyddiaith yn cymhlethu'r darlun hwn yn sylweddol. Ceir pob enghraifft o *anghyfiaith* mewn rhyddiaith ganoloesol mewn testunau sy'n dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg neu ddiweddarach, ac sy'n gyfieithiadau, fel arfer, o ffynonellau Lladin. Ceir y rhan fwyaf ohonynt yn y fersiynau amrywiol o *Brut y Brenhinedd*, y cyfieithiadau Cymraeg o

⁸⁴ Williams, *Armes Prydein*, ll. 66. Am drafodaeth ar y geiriau benthg, gw. Rebecca Thomas a David Callander, 'Reading Asser in Early Medieval Wales: The Evidence of *Armes Prydein Vawr*', *Anglo-Saxon England*, 46 (2017), 115–45 (123–6).

De gestis Britonum Sieffre o Fynwy. Mae *anghyfiaith* yn digwydd hefyd yn *Ystoria de Carlo Magno*, *Historia Gruffud vab Kenan*, *Brut y Tywysogyon*, *Val y cauas Elen y Grog a Buchedd Beuno*. Mae'r enghreifftiau o *anghyfiaith* yn y mathau hyn o destunau'n ddi-ddorol, ond hefyd yn ddefnyddiol er mwyn deall y ffordd y dehonglwyd ac y defnyddiwyd y gair yn yr Oesoedd Canol, gan ei bod hi'n bosibl cymharu, mewn nifer o achosion, y testun Cymraeg gyda'r testun Lladin y mae'n gyfieithiad ohono. *Buchedd Beuno* yw'r unig destun na chaiff ei ystyried yn fanwl yma. Un enghraifft o *anghyfiaith* a geir ynddo, ac mae'r ystyr yn ddiamwys: cyfeiria Beuno at Sais fel *gwr angkyvyeith* a glywodd yn annog ei gŵn hela ar lan afon Hafren yn y *ieith ef*.⁸⁵ Nid yw'r *Vita* Ladin y seiliwyd y fuchedd arni wedi goroesi.⁸⁶

Ceir dwy enghraifft yn *Historia Gruffud vab Kenan*, cyfieithiad o *Vita Griffini* sy'n fywgraffiad Lladin i Ruffudd ap Cynan (m. 1137), brenin Gwynedd. Mae'n debygol fod *Vita Griffini* wedi ei chyfansoddi yn ystod teyrnasiad mab Gruffudd, Owain Gwynedd (m. 1170), ac wedi ei throsi i'r Gymraeg yn y drydedd ganrif ar ddeg.⁸⁷ Yn yr achos cyntaf, noda'r awdur fod Duw wedi anfon llynges Magnus brenin Norwy i Fôn y *ryddhau y bobyl warchaeedig gan yr angkyfyeith*, sef ieirll Eingl-Normanaid Amwythig a Chaer.⁸⁸ Yn *Vita Griffini*, cyfeirir at ddymuniad Duw i ryddhau ei bobl a oedd yn dioddef anffawd (*ut plebem suam miseriis involutam tandem liberaret*).⁸⁹ Nid oes unrhyw air sy'n cyfateb i *anghyfiaith* yn y Lladin gwreiddiol, felly.

⁸⁵ Patrick Sims-Williams (gol.), *Buchedd Beuno: The Middle Welsh Life of St Beuno* (Dublin: DIAS, 2018), §8 (t. 144). Mae'r Sais yn gweiddi '*Kergia, kergia!*', sy'n ansicr ei darddiad. Gw. ymhellach Andrew Breeze, 'Buchedd Beuno a "Ceriga, ceriga"', *Llên Cymru*, 31 (2008), 187–8; Sims-Williams, *Buchedd Beuno*, 158–9.

⁸⁶ Gw. Sims-Williams, *Buchedd Beuno*, 17–32.

⁸⁷ Am ddyddiad cyfansoddi *Vita Griffini*, gw. D. Simon Evans (gol.), *Historia Gruffud vab Kenan* (Caerdydd: GPC, 1977), ccxlv [HGK o hyn ymlaen]; Paul Russell (gol. a chyf.), *Vita Griffini filii Conani: The Medieval Latin Life of Gruffudd ap Cynan* (Caerdydd: GPC, 2005), 46, 131; J. Beverley Smith, 'The Biography of Gruffudd ap Cynan: Literary Form and Historical Interpretation', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 29 (2019), 337–76 (365–9). Mae Kari Maund yn cynnig dyddiad diweddarach yn 'Gruffudd, grandson of Iago': *Historia Gruffud vab Kenan and the construction of legitimacy*, yn Kari Maund (gol.), *Gruffudd ap Cynan. A Collaborative Biography* (Woodbridge: Boydell Press, 1996), 109–16 (115–16). Cymh. adolygiad Sean Duffy yn *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 38 (Winter 1999), 102–3. Am ddyddiad y cyfieithiad Cymraeg, gw. HGK ccxcii–ccv.

⁸⁸ HGK 25.20–1.

⁸⁹ Russell, *Vita Griffini*, §28 (tt. 82–3), *er mwyn o'r diwedd rhyddhau ei bobl yng nghanol anffawd*.

Yn yr ail achos, tua diwedd y testun, mae'r awdur yn amlinellu ymdrechion meibion Gruffudd i amddiffyn teyrnas Gwynedd:

A'e feibeon, etwa yn weisseon yefeink, a ossodes ar y kantrefoedd eithaf iddaw, y ragfeddu ag y eu kynnal mal mur agkyffroedig yn erbyn estrawn genedloedd a rhei agkyfyeith, o darffei uddunt meddylaw kyfodi o newydd yn y erbyn.⁹⁰

Defnyddir *anghyfaith* yma i ddisgrifio'r gelynion a oedd yn bygwth Gwynedd yn y ddeuddegfed ganrif. Tra bo rhan gyntaf yr *Historia* yn canolbwyntio'n bennaf ar ymdrechion Gruffudd i gipio Gwynedd oddi ar y Brenin Trahaearn ap Caradog a'i gynghreiriad Cynwrig ap Rhiwallon, brenin Powys, ni elwir y gelynion hyn yn *anghyfaith*. Cyfeirir atynt fel *treiswyr* ac *estrawn genedloedd* mewn man arall yn yr *Historia*, ond nid *anghyfaith*.⁹¹ Mae'n debygol, felly, mai'r Eingl-Normaniaid yn benodol yw'r *anghyfaith* unwaith eto. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig nodi nad yw pob unigolyn o *iaith* arall yn cael ei alw'n *anghyfaith* yn yr *Historia*; mae'r bywgraffiad yn llawn cyfeiriadau ffafriol tuag at gefnogwyr Gruffudd, yn cynnwys y Gwyddelod a'r Llychlynwyr.⁹² Yn wir, clodforir Gruffudd am ei allu i siarad amrywiol ieithoedd.⁹³ Ond, pan geisia'r Eingl-Normaniaid ennill goruchafiaeth dros Wunedd maent yn *estrawn genedloedd* ac yn *anghyfaith*. Unwaith eto, ni cheir cyfatebiaeth yn y Lladin i *anghyfaith*:

Filios adhuc iuvenes in extremis regni cantredis praepositos coll[...]velit ut essent quasi
<> cum extraneis nationibus oppositio cum his qui rebus novis studere vellent.⁹⁴

⁹⁰ HGK 30.21–31.2.

⁹¹ HGK 6.12, 16. Cymh. Russell, *Vita Griffini*, §9 (tt. 58–9), *tyrannus; gentem extraneam*.

⁹² Gw. ymhellach Rebecca Thomas, 'The View from Wales: Anglo-Welsh Relations in the Time of England's Conquests', yn Laura Ashe ac Emily J. Ward (goln), *Conquests in Eleventh-Century England: 1016, 1066* (Woodbridge: Boydell Press, 2020), 287–306; E. Winkler, 'The Latin Life of *Gruffudd ap Cynan*, British Kingdoms and the Scandinavian Past', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 28 (2017), 425–56.

⁹³ Gw. ymhellach Paul Russell, '*Externarum linguarum excellens*: The Rhetoric and Reality of the Languages of Gruffudd ap Cynan, Ruler of Gwynedd († 1137)', yn Judith A. Jefferson ac Ad Putter (goln), *Multilingualism in Medieval Britain (c. 1066–1520)* (Turnhout: Brepols, 2013), 73–87.

⁹⁴ Russell, *Vita Griffini*, §33 (tt. 86–9).

A gosododd ei feibion, a hwythau'n ifanc o hyd, i reoli dros gantrefi mwyaf pell ei deyrnas, fel y gallent fod, fel petai <> gyda chenhedloedd estron, yn wrthwynebiad i'r rhai hynny fyddai'n dymuno codi yn ei erbyn.

Tra bo rhan o'r testun Lladin ar goll yma, mae'n debygol ei fod yn disgrifio meibion Gruffudd yn gweithredu fel mur, fel y gwelir yn y cyfieithiad Cymraeg, yn hytrach na chynnig manylion pellach ynghylch y gelynyon yr oeddent yn eu hwynebu.⁹⁵ Mae'r cyfieithydd yn cyfieithu *extraneis nationibus* yn *estrawn genedloedd* ond gan ychwanegu *a rhei agkyfyeith*.

Mae'r cyplysiad hwn o *rhei agkyfyeith* ac *estrawn genedloedd* yn berthnasol wrth ystyried y testun/testunau sy'n cynnwys yr enghreifftiau mwyaf niferus o *anghyfiaith*: *Brut y Brenhinedd*. Ni wyddom yn union pryd y cyfieithwyd *De gestis Britonum* Sieffre o Fynwy i'r Gymraeg, ond mae cyfieithiadau yn ymddangos mewn llawysgrifau o ganol y drydedd ganrif ar ddeg ymlaen. Awgryma cyfeiriadau mewn cerddi o ddiwedd y ddeuddegfed ganrif fod rhai beirdd yn gyfarwydd â rhyw fersiwn o *Brut y Brenhinedd*.⁹⁶ Ceir sawl fersiwn gwahanol o'r testun ac mae'r berthynas rhyngddynt yn ansicr; mae cyfeiriadau at *anghyfiaith* yn ymddangos mewn pedwar o'r rhain: Llanstephan 1; Dingestow; Cotton Cleopatra; a Llyfr Coch Hergest.⁹⁷ Mae'n bwysig nodi nad yw *anghyfiaith* yn cael ei ddefnyddio i gyfieithu'r union un rhan o destun Sieffre ym mhob fersiwn. Hynny yw, tra bo *anghyfiaith* yn cael ei ddefnyddio yn yr union un cyd-destun ar draws mwy nag un fersiwn o *Brut y Brenhinedd*, ceir nifer o achosion lle defnyddir *anghyfiaith* yn y cyd-destun hwnnw mewn un fersiwn yn unig.

Mae pymtheng enghraifft o'r defnydd o *anghyfiaith* i gyfieithu adrannau gwahanol o destunau Sieffre ar draws y fersiynau gwahanol o *Brut y Brenhinedd* cyn 1425.⁹⁸ Ym mhob

⁹⁵ Fel yr awgrymir yn Russell, *Vita Griffini*, 166.

⁹⁶ Ymhellach ar y cerddi hyn, gw. Patrick Sims-Williams, *Rhai Addasiadau Cymraeg Canol o Sieffre o Fynwy* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, 2011), 5–6.

⁹⁷ Am grynodedd o'r drafodaeth ar y fersiynau gwahanol a'u perthynas â'i gilydd, gw. Owain Wyn Jones, 'The Most Excellent Princes: Geoffrey of Monmouth and Medieval Welsh Historical Writing', yn Georgia Henley a J. Byron Smith (goln), *A Companion to Geoffrey of Monmouth* (Leiden: Brill, 2020), 257–90 (274–5).

⁹⁸ Rhestrir yma bob enghraifft o *anghyfiaith* yn *Brut y Brenhinedd* mewn llawysgrifau cyn 1425 ynghyd â'r adrannau cyfatebol o destun Lladin Sieffre o Fynwy. Cymherir testun Sieffre gyda'r llawysgrifau yn Diana Luft, Peter Wyn Thomas a D. Mark Smith (goln), *Rhyddiaith Gymraeg 1300–1425* (Caerdydd: Prifysgol Caerdydd, 2007–13), <http://www.rhyddiaithganoloesol.caerdydd.ac.uk/>, a Graham R. Isaac et al. (goln), *Rhyddiaith*

achos ond dau, mae *anghyfiaith* yn disgrifio gelynyon y Brythoniaid, sef y Sacsoniaid, y Gwyddelod a'r Pictiaid.⁹⁹ Felly, yn *Brut Dingestow* cyfeirir at y Sacsoniaid fel *anghyfiaith* yng nghyd-destun eu trechu gan Uthr Bendragon:

A guedy llad Pascen a Gillamvri, fo yr agkyfyeithyon genedloed hynny y emdyeith ar eu llogeu, gan eu hymlit ac eu llad.¹⁰⁰

Gymraeg o Lawysgrifau'r 13eg Ganrif Fersiwn 1 (Aberystwyth: Prifysgol Aberystwyth, 2010) <https://doi.org/10.20391/3abf4ef1-e364-4cce-859d-92bf4035b303>, gan ddefnyddio golygiadau o fersiwn Cotton Cleopatra (John Jay Parry (gol. a chyf.), *Brut y Brenhinedd: Cotton Cleopatra Version* (Cambridge MA: The Mediaeval Academy of America, 1937)), fersiwn Dingestow Court (Henry Lewis (gol.), *Brut Dingestow* (Caerdydd: GPC, 1942)), a fersiwn Llanstephan 1 (Brynley F. Roberts (gol.), *Brut y Brenhinedd: Llanstephan MS 1 version* (Dublin: DIAS, 1971)), lle bo'n briodol: **1**) *DGB* v.77.113. Cymh. Llanstephan 1, 93; Caerdydd 1.363 (Hafod 2), ff. 74r (fersiwn Llanstephan). **2**) *DGB* v.83.280–1. Cymh. Coleg yr Iesu 111 (Llyfr Coch Hergest), f. 26r; LIGC 3035B (Mostyn 116), f. 65r; BL Add 19709, f. 38r (fersiwn Llyfr Coch Hergest); Lewis (gol.) *Brut Dingestow*, v.11 (t. 75). **3**) *DGB* v.88.387. Cymh. Caerdydd 1.363 (Hafod 2), f. 86r (fersiwn Llanstephan 1); Peniarth 45, 111 (fersiwn Dingestow); BL Add 19709, f. 41r; Peniarth 19, f. 49r; LIGC 3035B (Mostyn 116), f. 67v (fersiwn Llyfr Coch Hergest). **4**) *DGB* vi.89.16. Cymh. Caerdydd 1.363 (Hafod 2), f. 88r (fersiwn Llanstephan 1). **5**) *DGB* vi.92.121. Cymh. Peniarth 19, f. 51v; LIGC 3035B (Mostyn 116), f. 71v; BL Add 19709, f. 45r (fersiwn Llyfr Coch Hergest); LIGC 3036B (Mostyn 117), 114; Peniarth 46, 166; LIGC 5266B (Llawysgrif Dingestow), 126; Peniarth 45, 120 (fersiwn Dingestow Court). **6**) *DGB* vi.98.252–3. Cymh. Caerdydd 1.363 (Hafod 2), f. 97r. **7**) *DGB* vi.101.382–3. Cymh. Caerdydd 1.363 (Hafod 2), f. 101v (fersiwn Llanstephan 1). **8**) *DGB* vi.102.428–9. Cymh. Caerdydd 1.363 (Hafod 2), f. 104r (fersiwn Llanstephan 1). **9**) *DGB* viii.134.381. Cymh. Lewis, *Brut Dingestow*, viii.16 (t. 133). **10**) *DGB* ix.149.161–2. Cymh. Roberts, *Brut y Brenhinedd*, 27. **11**) *DGB* xi.178.60. Cymh. Peniarth 19, f. 89r; LIGC 3035B (Mostyn 116), f. 130r; Coleg yr Iesu 111 (Llyfr Coch Hergest), f. 51v; BL Add 19709, f. 79r (fersiwn Llyfr Coch Hergest; Parry, *Brut y Brenhinedd*, 192. **12**) *DGB* xi.185.152. Cymh. Llanstephan 1, 186; BL Add 19709, f. 81v (fersiwn Llyfr Coch Hergest). **13**) *DGB* xi.186.164. Cymh. Llanstephan 1, 187; Caerdydd 1.363 (Hafod 2), f. 191v (fersiwn Llanstephan 1); BL Add 19709, f. 82r (fersiwn Llyfr Coch Hergest). **14**) *DGB* xi.194.329. Cymh. Peniarth 19, f. 94r; LIGC 3035B (Mostyn 116), f. 136r; Coleg yr Iesu 111 (Llyfr Coch Hergest), f. 54v (fersiwn Llyfr Coch Hergest); Caerdydd 1.363 (Hafod 2), f. 197r (fersiwn Llanstephan 1). **15**) *DGB* xi.207.592. Cymh. Peniarth 19, f. 99r; LIGC 3035B (Mostyn 116), f. 141r; Coleg yr Iesu 111 (Llyfr Coch Hergest), f. 57v (fersiwn Llyfr Coch Hergest).

⁹⁹ Mewn un achos, ceir disgrifiad o fenywod y Brythoniaid yn cael eu llongdryllio ar *ynyssed aghyfyeth*, yn cyfieithu *in barbaras insulas* Geoffrey (gweler rhif 3 yn y troednodyn blaenorol). Nid yw'n eglur pwy yn union yw'r *anghyfiaith* yma, ond ceir defnydd tebyg o *anghyfiaith* i ddisgrifio *alltuedd* yn *Ystoria de Carlo Magno*, gw. trafodaeth isod, 0000. Trafodir yr ail enghraifft wahanol (rhif 2 yn y troednodyn blaenorol) isod, gw. 0000.

¹⁰⁰ Lewis, *Brut Dingestow*, viii.16 (t. 133).

Mae'r cyfieithiad yn glynu'n agos at Ladin gwreiddiol Sieffre, heblaw am *agkyfyeithyon genedloed*, sydd yn cyfieithu *barbari*:

Fugientes itaque barbari festinauerunt ad naues suas, sed in fugiendo a persequentibus ciuibus trucidabantur.¹⁰¹

Rhuthrodd y barbariaid i'w llongau ar ffo, ond fe'u lladdwyd gan y dilynwyr wrth iddynt redeg.

Defnyddia Sieffre *barbari* i ddisgrifio'r Sacsoniaid, y Gwyddelod a'r Pictiaid yn aml yn *De gestis Britonum*. Nid yw hyn yn anarferol: ceir defnydd tebyg mewn testunau cynharach a ddefnyddiwyd gan Sieffre, megis *Historia Brittonum*, a hefyd mewn testunau y tu allan i Brydain, er enghraifft croniclau Jerome a Propser.¹⁰² Yr hyn sy'n ymhlyg yn y defnydd o *barbari* yw paganiaeth y bobl o dan sylw, mewn cyferbyniad fel arfer i Gristnogaeth y Brythoniaid. Mae hyn yn amlwg yn *Historia Brittonum*, er enghraifft, lle defnyddir *barbari* a *pagani* yn ddiwahân i gyfeirio at y Sacsoniaid.¹⁰³ Cadwa *Brut Dingestow* y pwyslais ar baganiaeth gelynion y Brythoniaid trwy ddefnyddio *enedloed* yn rhan o'r cyfieithiad o *barbari*. Tra bo *enedl* yn golygu 'pobl', mae'r lluosog *enedloed* yn aml yn cysylltu'r bobl a ddisgrifir gyda phaganiaeth.¹⁰⁴ Felly, defnyddir *enedloed duon* yn y croniclau Cymraeg i

¹⁰¹ DGB viii.134.381–2.

¹⁰² Gw. *Historia Brittonum* [HB o hyn ymlaen] §§23, 30, 36, 44; (Edmond Faral (gol.), *La Légende Arthurienne: Études et Documents*, 3 cyf. (Paris: Champion, 1929), III, 19, 21, 27 a 33); Gildas, *De Excidio et Conquestu Britanniae*, §§18, 20, 23 – Michael Winterbottom (gol. a chyf.), *Gildas: The Ruin of Britain and Other Works* (London: Phillimore, 1978), 23, 26, 94, 95 a 97. Cymh. y sylw fod Severus wedi adeiladu wal i amddiffyn y Brythoniaid rhag ymosodiadau'r barbariaid yn y ffynonellau canlynol: Theodor Mommsen (gol.), 'Prosperi Tironis Epitoma Chronicon', yn Theodor Mommsen (gol.), *Chronica Minora Saec. IV. V. VI. VII*, MGH Auct. ant. 9 (Berlin: Weidmann, 1892), 341–485 (435); Rudolf Helm (gol.), *Die Chronik des Hieronymus / Hieronymi Chronicon* (Berlin: Akademie-Verlag, 1956), 212; Charles W. Jones (gol.), *Bedae Venerabilis: Opera didascalica*, 2. *De temporum ratione* (Turnhout: Brepols, 1977), 502. Gw. ymhellach Rebecca Thomas, 'Perceptions of Peoples in Early Medieval Wales', traethawd PhD anghyhoeddedig, Prifysgol Caer-grawnt, 2018, 126–7.

¹⁰³ Gw. n. 0000 am restr o gyfeiriadau at *barbari* yn HB. Am gyfeiriadau at y Sacsoniaid fel *pagani*, gw. HB §§37, 56.

¹⁰⁴ GPC d.g. *enedl*, *eneddl* a; y *Cenedhedloedd Duon*. Cymh. n. 56 uchod ar gynhon.

ddisgrifio'r Llychlynwyr, yn cyfateb i *gentibus nigris* y testunau Lladin.¹⁰⁵ Mae'r cyfieithydd yn parhau i bwysleisio paganiaeth y Sacsoniaid, ond hefyd yn cynnig dimensiwn ychwanegol trwy'r defnydd o *agkyfyeithyon*. Gellir gwahaniaethu rhwng y Brythoniaid a'r Sacsoniaid ar sail eu ffydd, ond hefyd ar sail eu hiaith. Arwyddocaol, o bosibl, yw'r defnydd cynharach o *barbari* i gyfeirio at y rhai hynny a oedd y tu allan i wareiddiad clasurol ac na siaradent Roeg.¹⁰⁶ Mae'r defnydd o *anghyfiaith* yn adleisio'r ystyr hon.

Yn achos y pymtheng enghraifft o *anghyfiaith* a geir yn fersiynau gwahanol *Brut y Brenhinedd*, mae pob enghraifft ond dwy yn cyfieithu ffurf ar *barbari*.¹⁰⁷ Edrychwn ar un enghraifft arall, a ddyfynnir yma o fersiwn Cotton Cleopatra:

Ac yna y dywat Arthur ha wyr da heb ef gobydwch chwi nac ymlad y bobil rackw vyth yn dvhvn canys pobyl casgyl angkyfieith ysgymvn ynt. Ac nyt ynt vn gallon a dynyon bydawl ereill canys ny ny yssyd gristionogeon a chyd ac iawn ac wyntav yn baganieit ysgymvn a chyt ar [cam].¹⁰⁸

Wrth gymharu gyda thestun Sieffre, gwelwn mai ffurf ar *barbari* a gyfieithir eto, y tro hwn i ddisgrifio'r Sacsoniaid, y Pictiaid a'r Gwyddelod:

¹⁰⁵ Am ddisgrifiadau o'r Llychlynwyr (*kenedloed*; *kenedloed duon*; *normanyeit duon*) yn y croniclau Cymraeg, gw. *Brut y Tywysogyon* (Peniarth 20; Llyfr Coch Hergest) 852, 855, 867, 871, 892 a 896 (Thomas Jones (gol.), *Brut y Tywysogyon: Peniarth MS. 20* (Cardiff: UWP, 1941); Thomas Jones (gol.), *Brut y Tywysogyon or the Chronicle of Princes, Red Book of Hergest Version*, 2il arg. (Cardiff: UWP, 1973)); *Brut y Tywysogyon (Brenhinedd y Saesson)* 855, 867 a 892 (Thomas Jones (gol.), *Brenhinedd y Saesson or the Kings of the Saxons* (Cardiff: UWP, 1971)). Am enghreifftiau o *gentibus / gentibus nigris* i ddisgrifio'r Llychlynwyr yn y croniclau Lladin, gw. Cronicl Harleian, 853, 850 a 870 (Egerton Phillimore (gol.), 'The *Annales Cambriae* and the Old-Welsh Genealogies from *Harleian MS. 3859*', *Y Cymmrodor*, 9 (1888), 141–83 (165–6)). Am y defnydd o *cenhedloed* i ddisgrifio'r Saraseniaid yn y croniclau Cymraeg o ddiwedd yr 11g. ymlaen, gw. Natalia Petrovskaja, *Medieval Welsh Perceptions of the Orient* (Turnhout: Brepols, 2015), 61–2.

¹⁰⁶ Henry George Liddell a Robert Scott, *A Greek-English Lexicon* (Oxford: Clarendon, 1889), d.g. *βάρβαρος* (t. 275).

¹⁰⁷ Mewn un achos mae *anghyfiaith* yn cyfieithu *uiros* (rhif 6 yn n. 98 uchod). Mae'r ail enghraifft yn fwy cymhleth ac fe'i trafodir ymhellach isod, gw. 0000.

¹⁰⁸ Parry, *Brut y Brenhinedd*, 192.

Dicit etiam diuersos diuersorum regnorum barbaros inbelles atque belli usus ignaros esse et nullatenus ipsis, uirtuosis uris et pluribus debellationibus usis, resistere posse si audacter inuadere et uiriliter decertare affectarent.¹⁰⁹

Dywedodd fod y barbariaid, yn anunedig ac o amrywiol wledydd, yn filwyr gwan a heb eu hyfforddi, ac na allent wynebu eu dewder a'u profiad milwrol hwy [y Brythoniaid], cyn belled ag yr ymosodent yn fentrus ac ymladd yn wrol.

Yma, mae'r testun yn gwyro ymhellach o'r Lladin gwreiddiol nag yn yr enghraifft gyntaf. Mae'r cyfieithydd yn defnyddio *anghyfiaith* ar gyfer *barbari*, cyn mynd rhagddo i bwysleisio paganiaeth y gelyn, mewn cyferbyniad â'r Brythoniaid Cristnogol. Mae'n debygol fod y cyfieithydd yn ymwybodol o gynodiadau'r gair *barbari*. Mae'r modd y cyplysir *anghyfiaith* gyda *casgyl* hefyd yn ddiddorol. Yr awgrym yw bod y gelyn yn dyrfa o bobl heb gysylltiad â'i gilydd, ac mae hyn yn driw i destun Sieffre sy'n eu disgrifio fel *diuersos diuersorum regnorum barbaros*. Trwy gyfeirio at y gelyn fel *anghyfiaith*, felly, mae'n bosibl nad pwysleisio eu bod yn siarad iaith wahanol i'r Brythoniaid yn unig y mae'r cyfieithydd. Yn hytrach, mae'r gelyn hefyd yn *anghyfiaith* i'w gilydd; does dim un iaith gyffredin yn eu rhwymo ynghyd. Mae hyn yn arwyddocaol o ystyried y drafodaeth uchod ynghylch y berthynas rhwng *cyfiaith* ac *anghyfiaith*. Fel y nodwyd eisoes, dim ond mewn un gerdd, 'Mawl Llywelyn ap Gruffudd', y defnyddir *cyfiaith* ac *anghyfiaith* yn wrthgyferbyniol, hynny yw 'pobl sy'n siarad yr un iaith' a 'phobl nad ydynt yn siarad yr un iaith'. Fel arall, defnyddiwyd *cyfiaith* mewn amrywiol gyd-destunau. Awgryma'r defnydd o *anghyfiaith* yn *Brut y Brenhinedd* fod ystod ehangach o ystyron i'r gair hwnnw hefyd. Defnyddir *anghyfiaith* am bobl na siaradant yr iaith dan sylw, ond hefyd am bobl na siaradant yr un iaith â'i gilydd.

Mae yna un enghraifft yn *Brut y Brenhinedd* (fersiynau Dingestow a Llyfr Coch Hergest) nad yw'n dilyn y patrwm hwn. Yma, mae Eudaf, brenin Prydain, yn gofyn am gyngor gan Garadog, iarll Cernyw, ynghylch priodas ei ferch. Mae Caradog yn rhestru'r holl opsiynau gwahanol y mae prif ddynion ei deyrnas yn eu ffafrio:

¹⁰⁹ DGB xi.178.60–3.

Ac yna y bu rei a gynghorei yt rodi coron y teyrnas a’e llywodraeth y Kynan Meiryadavc dy nei, a rodi dy uerch y dyledavc o wlat arall. Canys ouyn oed ganthunt dyuot darystynghedigaeth y teyrnas o delhei urenhyn agkyuyeith arnadt. ¹¹⁰

Noda Caradog fod y Brythoniaid yn pryderu ynghylch y posibilrwydd o dywysog *anghyfiaith* yn rheoli drostynt. Yr hyn sy’n anarferol yma yw bod *anghyfiaith* yn gyfieithiad o’r Lladin – yr unig achos yn y testunau a gyfieithwyd o ffynhonnell Ladin sydd hefyd wedi goroesi. Dyma destun Sieffre:

Alii itaque censebant diadema Conano nepoti tuo tradendum filiamque tuam alicubi digne maritandam, timentes ciuium exterminationem si alterius linguae princeps superueniret. ¹¹¹

Ac felly barnai rhai y dylid rhoi’r goron i dy nai Conanus, ac y dylai dy ferch wneud rhyw briodas arall addas, gan eu bod yn ofni diwedd eu dinasyddion pe deuai tywysog o iaith arall i reoli drostynt.

Mae *urenhyn anggyfiaith* yn cyfieithu *alterius linguae princeps*. O ystyried y cyferbyniad rhwng *urenhyn anggyfiaith / alterius linguae princeps* a Chynan, nai Eudaf, mae’n debygol mai’r pryder yma yw dyfodiad unigolyn nad oedd yn siarad Brythoneg i deyrnasu dros y Brythoniaid. Mae’r sylw hwn i wahaniaeth ieithyddol yng ngwaith Sieffre yn drawiadol. Yng nghyd-destun *Brut y Brenhinedd*, unwaith eto ceir dicotomi rhwng siaradwyr Brythoneg a’r rhai hynny nad oeddent yn meddu ar yr iaith, ond y tro hwn mae’n gyfieithiad o’r Lladin gwreiddiol.

Yn *Brut y Brenhinedd* mae iaith yn elfen bwysig wrth ddisgrifio gelynyon y Cymry, boed yn Sacsoniaid, yn Bictiaid neu’n Wyddelod. Mae iaith yn arwyddocaol fel arwydd o wahaniaeth rhyngddynt a’r Brythoniaid, a hefyd fel nodwedd sy’n clymu grŵp at ei gilydd. Awgryma’r nifer fwy o gyfeiriadau mewn rhyddiaith o’r drydedd ganrif ar ddeg ymlaen, yn ogystal â defnydd mwy cyson ar draws y testunau a gyfieithwyd o’r Lladin, a *Brut y Brenhinedd* yn arbennig, fod *anggyfiaith* wedi dod yn rhan annatod o’r ffordd y câi gelynyon traddodiadol

¹¹⁰ Lewis, *Brut Dingestow*, v.11 (t. 75).

¹¹¹ *DGB* v.83.280–2.

y Brythoniaid eu disgrifio. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu gwyrriad llwyr oddi wrth yr hyn a ddaeth ynghynt; mae *anghyfiaith* yn cael ei integreiddio i'r fframwaith a oedd eisoes yn bodoli ar gyfer disgrifio'r bobloedd hyn, trwy ei ddefnyddio ochr yn ochr â geiriau eraill megis *cededloedd*, neu gyda sylw ychwanegol at baganiaeth y bobl.

Hyd yn hyn, defnyddiwyd *anghyfiaith* yn gyson i gyfeirio at bobl na siaradent Frythoneg neu Gymraeg. Fodd bynnag, wrth droi i edrych ar enghreifftiau pellach o destunau a gyfieithwyd o'r Lladin, ac sy'n adrodd hanes pobl a thiroedd y tu hwnt i Brydain, daw'n amlwg fod *anghyfiaith* yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destunau eraill hefyd. Y cyntaf yw *Ystoria de Carlo Magno*, cyfres o destunau Lladin a Hen Ffrangeg yn ymwneud â Charlemagne, wedi eu cyfieithu a'u casglu ynghyd i greu cylch unedig. Mae dyddiad y casgliad yn ansicr. Mewn rhai llawysgrifau (Llyfr Gwyn Rhydderch, Peniarth 9 a Llyfr Coch Hergest) ceir coloffon ar ddiwedd rhan gyntaf 'Cronicl Turpin' sy'n honni i'r llyfr gael ei gyfieithu i'r Gymraeg gan Fadog ap Selyf ar gais Gruffudd ap Maredudd ab Owain ap Gruffudd ap Rhys (fl. c.1265–c.1319).¹¹² Mae'n debygol, felly, fod rhan o'r casgliad wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg yn ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg, er nad oes sicrwydd fod yr holl destunau wedi eu cyfieithu yn y cyfnod hwn.¹¹³

Ceir dau gyfeiriad at *anghyfiaith* yn *Ystoria de Carlo Magno*, un ohonynt yng 'Nghronicl Turpin', y cyfieithiad Cymraeg o'r 'Cronicl Pseudo-Turpin', hanes Charlemagne yn goresgyn Sbaen a gyfansoddwyd yn Lladin tua 1140.¹¹⁴ Wrth iddo farw, mae Roland yn cyfarch Crist:

Arglwyd Grist, yr kynnal dy dedyf di a'th Gristnogaeth y deuthum i o'm gwlat y alltuedd aghyfyeth.¹¹⁵

Mae cymharu gyda'r Lladin gwreiddiol yn ddiddorol:

¹¹² Stephen J. Williams (gol.), *Ystoria de Carlo Magno o Lyfr Coch Hergest* (Caerdydd: GPC, 1968), xxix–xxxi. Mewn chwe llawysgrif ceir coloffon arall ar ddiwedd y testun 'Pererindod Siarlymaen' sy'n cyfeirio at *Reinallt urenhin yr ynnyssed* fel yr unigolyn a ysgogodd gyfansoddi'r gwaith. Am drafodaeth ar Reinallt yma, a'r goblygiadau ar gyfer dyddio'r testunau, gw. Petrovskaia, *Medieval Welsh Perceptions*, 90–100.

¹¹³ Mae Williams, *Ystoria de Carlo Magno*, xxxviii, yn gweld y broses yn ymestyn dros ail hanner y 13g. a hanner cyntaf y 14g.

¹¹⁴ Ymhellach ar y Lladin gwreiddiol, gw. Petrovskaia, *Medieval Welsh Perceptions*, 80.

¹¹⁵ Williams, *Ystoria de Carlo Magno*, §24 (tt. 158–9).

Domine Ihesu Christe, pro ciuus fide patriam meam dimisi, in hisque barbaris oris ad exaltandam Christianitatem tuam veni.¹¹⁶

Arglwydd Iesu Grist, er ffydd yn Hwn y gadewais fy nghartref, er dy fwyn di y deuthum i'r eithafoedd barbaraid hyn i foli Cristnogaeth.

Mae *alltuded aghyfyeth*, felly, yn cyfieithu *in hisque barbaris oris*. O ystyried y cyd-destun, mae'n debyg mai trigolion Sbaen yw'r *anghyfiaith*, y rhai hynny y mae Roland wedi bod yn alltud yn eu mysg ac nad ydynt yn siarad ei iaith, boed yn Ffrangeg neu'n Lladin. Awgryma'r defnydd o *anghyfiaith* fod Roland yn gwahaniaethu rhyngddo ef a thrigolion Sbaen ar sail iaith. Tanlinellir pwysigrwydd yr elfen ieithyddol hon ymhellach yng 'Nghronicl Turpin' trwy ddefnyddio *cyfiaith*. Digwydd hyn wedi i Charlemagne gwrdd â'i elyn, Aigolant, a chyfathrebu gydag ef yn Arabeg:

A phan adnabu Aigolant yr ymadrawd Arabic a dywawt Chyarlys, ryuedu a oruc a llawen uu o'e vot yn gyfyeth ac ef. Sarassinyec a rydysgassei ynteu Chyarlymaen yn Twlws, pan uuassei gynt yn ieuanc yno yn yscol.¹¹⁷

Gellir unwaith eto gymharu gyda'r Lladin:

Mox ut Aigolandus agnovit loquelam suam arabicam quam Karolus loquebatur, miratus est multum et gavisus. Didicerat enim Karolus linguam sarracenam apud Toletum, in qua, cum esset iuuenis, aliquanto tempore commoratus est.¹¹⁸

Pan ganfyddodd Aigolant mai ei iaith ef, Arabeg, a siaradai Charlemagne, synnodd yn fawr a llawenhaodd. Oherwydd roedd Charlemagne wedi dysgu'r iaith Sarasenaidd yn Toledo, lle bu'n aros nifer o weithiau pan oedd yn ifanc.

¹¹⁶ H. M. Smyser (gol.), *The Pseudo-Turpin: Edited from Bibliothèque Nationale, Fonds Latin, MS. 17656 with an Annotated Synopsis* (Cambridge MA: The Mediaeval Academy of America, 1937), §26 (t. 85).

¹¹⁷ Williams, *Ystorya de Carlo Magno*, §13 (t. 17).

¹¹⁸ Smyser, *Pseudo-Turpin*, §15 (t. 70).

Nid oes unrhyw air yn cyfateb i *cyfiaith* yn y Lladin: mae'r cronicl yn dweud i Aigolant ryfeddu a llawenhau yn unig. Mae *cyfiaith* yn ychwanegiad sy'n pwysleisio bod siarad yr un iaith yn destun gorfoledd; mae Aigolant yn llawenhau gan fod Charlemagne yn *gyfiaith* ag ef, hynny yw yn siarad yr un iaith – Arabeg yn yr achos hwn. Mae'n debyg fod yr elfen ieithyddol yn bwysig hefyd yng nghyd-destun galarnad Roland am ei alltudiaeth *anghyfiaith*.

Yn gyffredinol, wrth adrodd am frwydrau Charlemagne yn Sbaen, mae *Ystoria de Carlo Magno* yn pwysleisio diffyg ffydd y gelyn. Yn wir, dadleua Natalia Petrovskaia fod y cyfieithiadau Cymraeg yn cyfleu brwydrau Charlemagne fel ymgyrchoedd crefyddol (o dan ddylanwad y Crwsadau), yn wahanol i'r deunydd Lladin a Ffrangeg gwreiddiol, na ffocysant gymaint ar yr elfen hon.¹¹⁹ Yn y fersiwn Cymraeg Canol, defnyddir y termau *sarassinyeit* a *paganyeit* yn ddiwahân, er enghraifft.¹²⁰ Dyma yw'r cyd-destun ar gyfer y defnydd o *anghyfiaith*: ffordd arall o gyfeirio at y gelynyon hyn nad ydynt yn siarad yr un iaith â Charlemagne a Roland.¹²¹ Mae'r modd y cydblethir *anghyfiaith* a *paganyeit* yn awgrymu y gallai *anghyfiaith* fod yn gweithio mewn ffordd debyg i *paganyeit* yn y testunau hyn, hynny yw, yn cyfeirio at y rhai na fedrant Ladin y byd Cristnogol.

Ceir un enghraifft sy'n adlewyrchu hyn ymhellach mewn testun arall a gyfieithwyd o'r Lladin: *Val y cauas Elen y Grog*. Seilir yr hanes ar y testun Lladin *Inuentio sancte crucis*, sydd wedi goroesi mewn nifer o lawysgrifau o'r ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg.¹²² Roedd yn destun tra phoblogaidd ac fe'i cyfieithwyd i nifer o ieithoedd. Ni wyddys pryd yn union y crëwyd y cyfieithiad Cymraeg, sydd wedi goroesi ar ryw ffurf mewn o leiaf naw llawysgrif, ond mae nifer o feirdd o ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg a dechrau'r bedwaredd

¹¹⁹ Petrovskaia, *Medieval Welsh Perceptions*, 112–28.

¹²⁰ Petrovskaia, *Medieval Welsh Perceptions*, 112.

¹²¹ Ceir enghraifft fwy amwys o *anghyfiaith* mewn adran wreiddiol ar ddiwedd 'Pererindod Siarlymaen', y cyfieithiad Cymraeg o'r gerdd Hen Ffrangeg *Le Pèlerinage de Charlemagne*. Nodir yno fod Turpin wedi ysgrifennu hanes Charlemagne yn Sbaen *ual y daallei bawb wynt o'r a'e gwelei o genedloed agkyfyeth*: Williams, *Ystoria de Carlo Magno*, 204. Gellir dehongli'r adran hon mewn mwy nag un ffordd: efallai fod Turpin wedi cyfansoddi ei waith yn Lladin er mwyn i bawb a'i gwelai *o genedloed agkyfyeth* ei ddeall (gw. Petrovskaia, *Medieval Welsh Perceptions*, 78–9), neu fod Turpin wedi ysgrifennu'r anturiaethau yn Lladin er mwyn i bawb ddeall y pethau hyn, hynny yw, yr hyn a welai ef o *genedloed agkyfyeth*.

¹²² T. G. Jones, 'Ystoria Addaf a Val y cauas Elen y Grog: Tarddiad, Cynnwys ac Arddull y Testunau Cymraeg a'u Lledaeniad', traethawd MA anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru (Aberystwyth), 1936, xviii–xx.

ganrif ar ddeg yn dangos rhyw ymwybyddiaeth o'r chwedl.¹²³ Dechreua'r chwedl gydag adroddiad am Gustennin yn wynebu byddin o elynion ar lan afon Donau:

Ac odynd ymphen y tryded vluydyn ar dec ar hugeint a chant guedy diodef on argluyd iessu grist yny guledychey gur maurr anrydedus constans y eno dy6yllur y du6. Yn y seithuet vluydyn oe teyrnas yd ymgynullasant kenedloed aguyueith y ymlad yn erbyn g6yr rufein ar avon danubium.¹²⁴

Unwaith eto gellir cymharu geiriad y testun Lladin y seiliwyd y cyfieithiad arno, ac unwaith eto gwelir bod *kenedloed aguyueith* yn cyfieithu *barbari*:

Anno ducentesimo tricesimo tertio, post passionem Domini nostri Jesu Christi, regnante venerabili Dei cultore magno viro Constantino, in sexto anno regni ejus, gens multa barbarorum congregata est super Danubium, parati ad bellum contra Romaniam.¹²⁵

Y flwyddyn 233 wedi dioddefaint ein harglwydd Iesu Grist, pan oedd Custennin y dyn mawr ac addolwr anrhydeddus Duw yn teyrnasu, yn y chweched flwyddyn o'i deyrnasiad, ymgasglodd llawer o bobloedd barbaraidd uwchben afon Donau, yn barod am ryfel yn erbyn Rhufain.

Mae dimensiwn ysbrydol yma hefyd: â'r chwedl ymlaen i adrodd sut y gwelodd Custennin siâp y groes yn yr wybren, fel y bu iddo fabwysiadu'r arwydd ar gyfer ei fyddin ei hun, ac yna ennill buddugoliaeth yn y frwydr. Yn yr achos hwn, felly, defnyddir *kenedloed aguyueith* i gyfieithu *barbari* unwaith eto, i gyfeirio at y rhai hynny nad oeddent yn Rhufeiniaid, ac efallai nad oeddent yn Gristnogion.

Gwelwyd y gellid defnyddio *anghyfiaith* i gyfeirio at bobl na siaradant Ladin yn *Ystoria de Carlo Magno*, ynghyd ag enghraifft fwy cadarn yn *Val y cauas Elen y Grog*. A yw'n bosibl dehongli'r defnydd o *anghyfiaith* yn y cyfieithiadau eraill sy'n ymwneud â'r Brythoniaid yn

¹²³ Trafodir y dystiolaeth yn Jones, 'Ystoria Addaf', lxix–xx.

¹²⁴ Jones, 'Ystoria Addaf', 28.

¹²⁵ Jones, 'Ystoria Addaf', 28.

benodol yn yr un ffordd? Ceir enghraifft ddiddorol yn fersiwn Llyfr Coch Hergest o *Brut y Tywysogyon*. O dan y flwyddyn 1090 mae'r *Brut* yn nodi:

Ac yna yd aeth Gwilym Goch uap Gwilym Hynaf, yr hwnn a oruu ar y Saesson o glotuorussaf ryfel, hyt yn Normandi y gadw ac y amdiffynn teyrnas Robert y urawt, yr hwnn a athoed hyt yng Kaerussalem y ymlad a Sarassinnyeit a chenedloed ereill agkyfyeith ac y amdiffynn y Gristnogaeth ac y haedu mwy o glot.¹²⁶

O dan ymbarél *Brut y Tywysogyon* mae tri chronicl sy'n perthyn yn agos i'w gilydd: fersiynau Llyfr Coch Hergest, Peniarth 20 a *Brenhinedd y Saesson*. Credir mai cyfieithiadau annibynnol o destun Lladin coll yw'r tri chronicl, ac efallai gyfieithiadau o fersiynau gwahanol o'r testun Lladin hwnnw.¹²⁷ Mae'n debyg fod cofnodion yr unfed ganrif ar ddeg (y cyfnod dan sylw yma) yn y testun Lladin gwreiddiol yn seiliedig ar yr un ffynhonnell o Dyddewi a oedd yn sail i'r croniclau Cottonian a Breviate (testunau B ac C yr *Annales Cambriae*).¹²⁸ Fodd bynnag, ni cheir sôn am daith Robert i Gaersalem yn y croniclau hynny; cyfeiria rhain yn unig at William Rufus yn mynd i Normandi, gyda chronicl Cottonian hefyd yn nodi iddo ymosod ar ei frawd yno.¹²⁹ Felly, yn yr achos hwn ni ellir cymharu'r defnydd o *anghyfiaith* gyda thestun Lladin gwreiddiol. Yn draddodiadol, dehonglwyd y manylion ychwanegol yng nghroniclau *Brut y Tywysogyon* fel gwaith datblygu ac ehangu yn y drydedd ganrif ar ddeg gan awdur y testun Lladin, gwaith a fu'n sail i'r fersiynau Cymraeg. Erbyn hyn, fodd bynnag, credir i'r awdur hwn

¹²⁶ Jones, *Brut y Tywysogyon ... Red Book of Hergest Version*, 1090 [1094].

¹²⁷ John Edward Lloyd, 'The Welsh Chronicles', *Proceedings of the British Academy*, 14 (1928), 369–91 (375–82). Am drosolwg o'r ddadl, gw. Ben Guy, 'Historical Scholars and Dishonest Charlatans: Studying the Chronicles of Medieval Wales', yn Ben Guy et al. (goln), *The Chronicles of Medieval Wales and the March* (Turnhout: Brepols, 2020), 69–106; Owain Wyn Jones, 'Brut y Tywysogion: The History of the Princes and Twelfth-Century Cambro-Latin Historical Writing', *Haskins Society Journal*, 26 (2014), 209–27 (210–11). Mae'n debyg fod y cyfieithiadau wedi eu creu yn ystod y 13g. a'r 14g., ond nid oes gennym ddyddiad sicr. Gw. ymhellach Guy, 'Historical Scholars', 83–4.

¹²⁸ K. Hughes, 'The Welsh Latin Chronicles: *Annales Cambriae* and Related Texts', yn David Dumville (gol.), *Celtic Britain in the Early Middle Ages: Studies in Scottish and Welsh Sources* (Woodbridge: Boydell Press, 1980), 67–85 (67–74). Ymhellach ar enwau'r croniclau hyn, gw. Guy, 'Historical Scholars'.

¹²⁹ Henry Gough-Cooper (gol.), 'The Breviate Chronicle' a 'The Cottonian Chronicle', wedi eu cyhoeddi ar lein gan Grŵp Ymchwil y Croniclau Cymreig (2015), <http://croniclau.bangor.ac.uk/index.php.cy> [b1116.1] (t. 52), [c415.1] (t. 30).

lynu'n weddol ffyddlon at ei ffynonellau.¹³⁰ Hynny yw, mae'n bosibl mai awduron croniclau Breviate a Cottonian a gwtogodd eu deunydd, yn hytrach na bod awdur *Brut y Tywysogyon* wedi eu ehangu. Mae'n debygol, felly, fod hanes Robert yng Nghaersalem, a ymddengys ar ryw ffurf yn nhri chronicl *Brut y Tywysogyon*, yn deillio o ffynhonnell Tyddewi awdur y Lladin gwreiddiol. Fodd bynnag, nid yw'r cyfeiriad at *cededloed ereill agkyfyeith* yn ymddangos yn *Brut y Tywysogyon* Peniarth 20 na *Brenhinedd y Saesson*. O ganlyniad, mae'n bosibl mai ychwanegiad cyfieithydd *Brut y Tywysogyon* Llyfr Coch Hergest oedd *cededloed ereill agkyfyeith*, ac nad oedd unrhyw ymadrodd cyfatebol yn y Lladin gwreiddiol.

Yn *Brut y Tywysogyon* Llyfr Coch Hergest rhestrir *cededloed ereill agkyfyeith* ynghyd â'r Saraseniaid fel gelynion y mae Robert yn ymladd yn eu herbyn. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosibl mai'r iaith nad ydynt yn rhan ohoni yw Lladin, a thrwy estyniad, Gristnogaeth. Ceir awgrym o baganiaeth y gelyn yn y defnydd o *cededloed*, a dywedir bod Robert wedi mynd i Gaersalem y *amdiffynn* y *Gristnogaeth*. Y *cededloed eraill agkyfyeith* yw'r rhai hynny sydd y tu allan i Gristnogaeth, yn cynrychioli bygythiad iddi. Byddai hyn yn gyson â'r ffordd y defnyddir *anghyfiaith* yn *Val y cauas Elen* y *Grog*. Yr hyn sy'n arbennig am achos *Brut y Tywysogyon* yw mai persbectif y croniclydd/cyfieithydd a geir wrth adrodd am gyfres o ddigwyddiadau hanesyddol sydd wedi eu lleoli ym Mhrydain ar y cyfan; persbectif Cymro, hynny yw. Awgryma hyn nad yw ystyr *anghyfiaith* bob tro yn cael ei gyfyngu i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg mewn testunau yn ymwneud â'r Brythoniaid. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol o ystyried y nifer o enghreifftiau a geir o *anghyfiaith* fel cyfieithiad o *barbari*, y defnydd ohono'n gyfochrog â *cededloed* neu ynghyd â sylw ychwanegol am ddiffyg ffydd y bobl a ddisgrifir. Yn y cyd-destun hwn, nid yw defnyddio *anghyfiaith* i gyfeirio at y rhai hynny nad oeddent yn Gristnogion yn syfrdanol.

Mae'n bosibl, felly, fod *anghyfiaith* wedi datblygu yn y testunau hyn i fod yn air ystrydebol ac iddo nifer o ystyron posibl, i'w ychwanegu at y casgliad o eiriau Cymraeg a ddefnyddid i gyfeirio at bobl eraill mewn modd negyddol. Nid yw hyn yn golygu bod yr elfen ieithyddol a geir ynghlwm â'r defnydd o *iaith* yn ddibwys, ond yn hytrach ei bod yn gallu cael ei defnyddio mewn nifer o gyd-destunau gwahanol, ac nid yn unig i gyfeirio at y rhai na siaradent Gymraeg. Yn benodol, mae'n ddigon posibl fod rhai o'r testunau hyn yn defnyddio *anghyfiaith* i gyfeirio at y rhai hynny a oedd y tu allan i'r byd Cristnogol. Mewn rhai enghreifftiau, defnyddir

¹³⁰ Jones, '*Brut y Tywysogion*', 211–12.

anghyfiaith i gefnogi hunaniaeth y Cymry fel Cristnogion, ynghyd â'r rhai hynny a fyddent efallai, mewn cyd-destunau eraill, yn *anghyfiaith* eu hunain.

Mae gan hyn oblygiadau diddorol os dychwelwn at rai enghreifftiau o *anghyfiaith* mewn cerddi. A allwn ni fod yn sicr mai cyfeiriad syml at y rhai hynny na siaradent Gymraeg yw'r *anghyfiaith* ym mhob achos? Mae'n bosibl fod angen gair o rybudd. Ailystyriwn 'Oianau Myrddin' o Lyfr Du Caerfyrddin, er enghraifft, a'r cyfeiriad at *escyp agkyuyeith diffeith difid*. Fel y trafodwyd uchod, mae yna gyd-destun hanesyddol posibl i'r cyfeiriad hwn, wrth feddwl am y llythyr y cyfeiriodd Gerallt Gymro ato yn cwyno am anallu'r esgobion a benodwyd gan archesgob Caer-gaint yng Nghymru i siarad Cymraeg yn y drydedd ganrif ar ddeg. Fodd bynnag, yn ogystal ag awgrymu nad oedd yr esgobion yn medru'r Gymraeg, mae cynodiadau'r gair hefyd yn eu cysylltu gyda barbariaeth ddi-Ladin, ddi-Gristnogaeth, rhywbeth mae'r defnydd o *difid* yn yr un llinell yn ei bwysleisio.

Casgliadau

Mae'r defnydd o *anghyfiaith* yn y testunau canoloesol yn amrywio. Fe'i ceir mewn nifer o gyd-destunau gwahanol, yn aml gyda haenau cymhleth o ystyron. Ond eto mae modd adnabod nifer o dueddiadau yn y testunau sydd wedi goroesi. Nid yw'r gair yn digwydd o gwbl mewn rhannau helaeth o gorpws Cymraeg Canol, gan gynnwys rhyddiaith nad yw'n gyfieithiad o'r Lladin, megis chwedlau'r Mabinogion. Rhanna'r testunau lle ceir y gair yn dri phrif gorff, sef cyfraith, barddoniaeth, a rhyddiaith sydd wedi ei chyfieithu o'r Lladin. Mae cyfeiriadau at yr *anghyfiaith* wedi eu gwasgaru ar draws y testunau cyfreithiol, ond ym mhob achos mae'n amlwg mai unigolion na fedrent siarad Cymraeg a olygir. Nid oedd y testunau hyn yn galw unigolion yn *anghyfiaith* yn ddibwrpas chwaith; ymddengys fod gwerth ymarferol i'w ddefnydd. Yn ôl y gyfraith, dylai'r *anghyfiaith* gael *tafodiog* yn y llys, oherwydd, mae'n debyg, ei anallu yn y Gymraeg. Ond hyd yn oed yn y cyfreithiau, roedd *anghyfiaith* yn gweithredu mwy nag un swyddogaeth. Yn *Ior* mae ei ddefnydd ynghlwm wrth y diffiniad o alltud ac alltudiaeth. Roedd alltud yn unigolyn a ddaethai o'r tu hwnt i Glawdd Offa neu o wlad *anghyfiaith*. Y goblygiad yw bod Cymru'r cyfreithiau yn cael ei diffinio yn ddaeryddol, a hefyd ar sail iaith.

Mae'r defnydd o *anghyfiaith* yn fwy amwys yn y farddoniaeth a'r rhyddiaith. Ceir nifer o enghreifftiau ohono'n cyfeirio'n amlwg at y rhai hynny nad oeddent yn siarad iaith y testunau,

sef Cymraeg – cerddi Beirdd y Tywysogion, y gerdd broffwydol *Rydyrchafwy Duw ar plwyff Brython*, a *Brut y Brenhinedd*, er enghraifft. Yn yr achosion hyn, gelyn y Cymry yw'r *anghyfiaith* fel arfer – y Saeson yn amlach na pheidio – ac mae'r testunau yn gwahaniaethau rhwng y bobloedd hyn ar sail eu hiaith. Fodd bynnag, nid yw pob enghraifft yn dilyn y patrwm. Yn y testunau sy'n gyfieithiadau o ffynonellau Lladin, mae *anghyfiaith* yn aml yn gyfieithiad o ryw ffurf o *barbari*, ac yn cael ei ddefnyddio'n gyfochrog â geiriau eraill – megis *paganyeit* a *cededloed* – sy'n tanlinellu paganiaeth y bobl dan sylw. Mae'r astudiaeth hon wedi codi'r posibilrwydd fod *anghyfiaith* weithiau'n cyfeirio at bobl na siaradai Ladin; y rhai hynny, drwy estyniad, nad oeddent yn perthyn i'r byd Cristnogol. Mewn rhai cyd-destunau, mae'n bosibl fod yr *iaith* nad oedd yr *anghyfiaith* yn rhan ohoni yn ehangach na'r Cymry yn unig: cwmpasai'r byd Cristnogol cyfan.

Gallai unrhyw un enghraifft o *anghyfiaith* yn y testunau hyn fod â sawl ystyr ar yr un pryd. Fodd bynnag, mae'r defnydd o *anghyfiaith* ar draws cymaint o destunau gwahanol yn amlygu pwysigrwydd iaith fel ffordd o wahaniaethu rhwng pobloedd yng Nghymru'r Canol Oesoedd. Yn wir, ymhlith y testunau a gyfieithwyd o'r Lladin, ychwanegiad yw *anghyfiaith* ym mhob achos ond un, sy'n awgrymu ffocws penodol ar iaith yn y testunau Cymraeg mewn cymhariaeth â'r rhai Lladin. Roedd iaith yn bwysig yn ymarferol yn y testunau cyfreithiol; hefyd fel arf ideolegol i feithrin teyrngarwch gwleidyddol, fel y gwelir yn 'Mawl Llywelyn ap Gruffudd'; ac i bwysleisio undod y Brythoniaid gydol eu hanes yn *Brut y Brenhinedd*. Pa gymunedau bynnag a ddychmygir yn y testunau hyn, mae'r defnydd o *anghyfiaith* i ddiffinio eu hyd a'u lled yn tanlinellu pwysigrwydd iaith i'r rhai hynny oedd yn eu creu.